Gweinyddiaeth Cyfiawnder

Ymateb y llywodraeth i Adolygiad Charlie Taylor o'r System Cyfiawnder Ieuenctid

Rhagfyr 2016

Ymateb y llywodraeth i Adolygiad Charlie Taylor o'r System Cyfiawnder Ieuenctid

A gyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Rhagfyr 2016

Cm 9382

© Crown copyright 2016

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-governmentlicence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch ebost: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ynwww.gov.uk/government/publications

Dylech anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn Correspondence-YJPU@justice.gov.uk

Print ISBN 9781474139472
Gwe ISBN 9781474139489

ID 06121611 12/16

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan Williams Lea Group ar
ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

Cynnwys

Rhagarweiniad **3**

Crynodeb Gweithredol **5**

Pennod 1: Y fframwaith cywir ar gyfer gwella **8**

Pennod 2: Mynd i'r afael â Throseddu **15**

Atal ac ymyrryd yn gynnar 15

Cysylltiad yr heddlu â phlant a phobl ifanc 18

Llysoedd 19

Dedfrydu 21

Cofnodion Troseddol 23

Pennod 3: Gwella'r dalfeydd ieuenctid **24**

Gwella addysg a helpu pobl ifanc i gael prentisiaeth, hyfforddiant a gwaith wrth eu rhyddhau 26

Gwella iechyd 28

Grymuso llywodraethwyr a staff y rheng flaen 30

Meithrin gallu a gwella sgiliau'r gweithlu 30

Cynllun cymorth newydd yn y ddalfa 31

Gwella'r ystâd drwy ddatblygu unedau bach a chymorth arbenigol 32

Datblygu ysgolion diogel 33

Rhagarweiniad

1. Rydym yn benderfynol o wella safonau ym maes cyfiawnder ieuenctid fel nad ydym ond yn cosbi troseddu ond ein bod hefyd yn ymyrryd yn gynharach i atal troseddu a diwygio troseddwyr er mwyn iddynt beidio â throseddu eto - gan amddiffyn dioddefwyr ac adeiladu bywydau gwell.

2. Mae troseddu gan bobl ifanc wedi gostwng yn sylweddol - rhwng 2007 a 2015, gwelwyd gostyngiad o 82% yn nifer y bobl ifanc a ddaeth i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf. Yn yr un modd, mae nifer y plant a'r bobl ifanc a gedwir yn y ddalfa wedi gostwng 67% dros yr un cyfnod a 900 o bobl o dan 18 oed sydd yn y ddalfa ar hyn o bryd yng Nghymru a Lloegr.

3. Serch hynny, pan fydd plant a phobl ifanc yn cael eu rhoi yn y ddalfa, nid yw'r canlyniadau'n ddigon da. Mae gormod o drais a hunan-niweidio ac mae'r cyfraddau aildroseddu'n annerbyniol o uchel. Bydd 69% o'r rheini a ddedfrydir i gyfnod yn y ddalfa'n mynd yn eu blaen i droseddu eto o fewn blwyddyn i'w rhyddhau.

4. Wrth gwrs mae'n iawn bod troseddwyr ifanc sy'n troseddu'n wynebu canlyniadau eu gweithredoedd a bod y system cyfiawnder yn gwneud iawn i ddioddefwyr. Eto i gyd, y 900 hynny a gedwir yn y ddalfa yw rhai o'r plant mwyaf cymhleth a'r rhai sydd wedi'u niweidio fwyaf yn ein cymdeithas. Mae cartrefi chwâl, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, diweithdra o genhedlaeth i genhedlaeth, perthynas gamdriniol, treulio plentyndod mewn gofal, salwch meddwl, perthyn i gangiau a methu ym myd addysg yn aml yn nodweddion cyffredin yng nghefndir llawer o droseddwyr.

5. Rydym yn diwygio'r system cyfiawnder troseddol er mwyn gwella canlyniadau, lleihau troseddu a gwneud ein strydoedd yn fwy diogel. Roedd y Papur Gwyn am Ddiogelwch Carchardai a'u Diwygio, Tachwedd 2016, yn dangos sut yr ydym yn bwriadu gwella carchardai i oedolion drwy roi rhagor o bwerau i lywodraethwyr a thrwy hybu diogelwch, tryloywder ac atebolrwydd y drefn.

6. Byddwn hefyd yn rhoi'r un egwyddorion ar waith yn y ffordd y bydd y system cyfiawnder yn ymdrin â phlant a phobl ifanc sy'n torri'r gyfraith - gan ddarparu disgyblaeth, pwrpas, goruchwyliaeth a rhywun sy'n poeni amdanynt i helpu'r plant hyn i adeiladu bywyd gwell, heb droseddu.

7. Ym mis Medi 2015, comisiynodd y Llywodraeth bennaeth ysgol profiadol sy'n arbenigwr ym maes ymddygiad plant, Charlie Taylor, i edrych ar sut y bydd y wlad hon yn ymdrin yn gyffredinol â phlant a phobl ifanc sy'n torri'r gyfraith. Mae Adolygiad Taylor yn cyflwyno dadl o blaid newid sy'n argyhoeddi, ac fel mae'r ymateb hwn gan y llywodraeth yn ei gwneud hi'n glir, byddwn yn rhoi ei brif argymhellion ar waith drwy sicrhau bod addysg wrth galon y drefn pan gedwir pobl ifanc yn y ddalfa a thrwy wella'r gofal iechyd a ddarperir er mwyn mynd i'r afael â'r ffactorau sy'n cynyddu'r risg o droseddu.

8. Un flaenoriaeth ar frys fydd mynd i'r afael â'r lefelau uchel o drais. Mewn adroddiad diweddar gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, gwelwyd bod 46% o fechgyn, ar ryw adeg, wedi teimlo nad oeddent yn ddiogel yn eu sefydliad. Byddwn yn sicrhau bod yr amgylchedd lle y caiff pobl ifanc eu cadw yn y ddalfa'n ddiogel ac yn warchodol ac yn fan lle y gallant ddysgu ac ymddiwygio.

9. Byddwn hefyd yn paratoi plant a phobl ifanc yn well ar gyfer bywyd ar ôl eu dedfryd gan ddatblygu cynllun prentisiaeth i bobl ifanc yn y ddalfa, gan sicrhau bod yr holl bobl ifanc hynny'n ennill cyflog neu'n dysgu pan gânt eu rhyddhau.

Crynodeb Gweithredol

Pennod 1: Y fframwaith cywir ar gyfer gwella

10. Mae angen llawer mwy o eglurdeb ac atebolrwydd yn y system er mwyn i bawb fod yn anelu at y nod, sef, lleihau aildroseddu a newid trywydd bywydau. Rydym am weld system effeithiol - yn y gymuned ac yn y ddalfa - ynghyd â safonau perfformiad uchel.

11. Byddwn yn gwneud hyn:

    - Cydweithio â'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI) i adolygu trefniadau llywodraethu'r system a gosod safonau clir a chadarn ar gyfer pawb sy'n gweithio yn y gymuned ac yn y ddalfa.
    - Egluro'r swyddogaethau comisiynu a chreu un cyfarwyddwr gweithrediadau ar gyfer dalfeydd ieuenctid a fydd yn gallu cadw gafael tyn ar berfformiad a gweithredu'n gyflym ac yn bendant os digwydd methiant.
    - Cryfhau'r trefniadau craffu ac archwilio yn y ddalfa, gan greu mecanwaith newydd i'r arolygiaeth gychwyn y broses ymyrryd mewn sefydliadau sy'n methu. Bryd hynny, bydd yn ddyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i weithredu.
    - Parhau i glustnodi grantiau ar gyfer darparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid o fewn cyllid awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod digon o arian ar gael ar gyfer y gwasanaethau hyn.
    - Cydweithio ag awdurdodau lleol i archwilio sut y gellir rhoi rhagor o hyblygrwydd i ardaloedd lleol er mwyn iddynt wella gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid.

Pennod 2: Mynd i'r afael â throseddu

12. Rhaid inni barhau i sicrhau llai o droseddu gan bobl ifanc. Mae'n amlwg mai'r ffordd orau o wneud hyn yw ymyrryd yn gynnar ac atal plant a phobl ifanc rhag troseddu yn y lle cyntaf.

13. Gwyddom fod plant a phobl ifanc sy'n elwa o nifer o ffactorau gwarchodol - ar lefel unigolion, y teulu a'r gymuned - yn llawer llai tebygol o droseddu a rhaid inni feithrin cydnerthedd pobl ifanc drwy ei gwneud yn haws iddynt gael gafael ar addysg, gwasanaethau iechyd, cymorth i'r teulu a modelau rôl cadarnhaol.

14. Pan fyddant yn troseddu, rydym yn sylweddoli pa mor bwysig yw ymateb mewn ffordd gymesur sy'n rhoi cyfle i'r bobl ifanc wneud iawn a newid trywydd er mwyn peidio â throseddu eto. Pan fydd plant a phobl ifanc yn cael eu cadw yn nalfa'r heddlu, rhaid ymdrin â hwy'n briodol. Rhaid inni hefyd sicrhau bod trefniadau'r llys ieuenctid a'r trefniadau dedfrydu'n gyflym, yn effeithiol ac yn gallu diwygio'u troseddwyr yn well.

15. Byddwn yn gwneud hyn:

- Cydweithio ag adrannau eraill y llywodraeth a phartneriaid gan gynnwys y Swyddfa Gartref, yr Adran Addysg a'r BCI i gasglu gwybodaeth a rhannu'r arferion gorau ar draws y system er mwyn llywio rhagor o waith ataliol.
- Cydweithio â GIG Lloegr, yr Adran Addysg a darparwyr iechyd yn y gymuned i wella'r ffordd y caiff plant a phobl ifanc eu hasesu a sicrhau eu bod yn cael y driniaeth sydd ei hangen arnynt ar y cyfle cynharaf posibl.
- Cydweithio â'r Swyddfa Gartref a'r heddlu i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu trin yn briodol yn nalfa'r heddlu.
- Sicrhau bod y profiad a gaiff troseddwyr ifanc a dioddefwyr a thystion ifanc yn y llys yn fwy priodol, drwy beidio â'u gorfodi i ymddangos yn llys yn ddiangen a thrwy gynnal gwrandawiadau cyntaf ar remand yn y llys ieuenctid yn hytrach nag yn llysoedd yr ynadon i oedolion.
- Cydweithio â barnwyr, ynadon, Timau Troseddau Ieuenctid (TTI) y BCI ac eraill i ddatblygu ein hymagwedd at ddiwygio dedfrydu. Yn benodol, byddwn yn archwilio sut y gallwn integreiddio egwyddorion Adolygiad Taylor fwy i'r fframwaith presennol.
- Ymgysylltu â phartïon sydd â diddordeb yn y maes, gan gynnwys y Swyddfa Gartref, y cyfryngau a grwpiau budd cyfiawnder ieuenctid ynglŷn â chyfyngiadau adrodd am bobl ifanc.
- Gweithio gyda'r Swyddfa Gartref i ystyried argymhellion ymchwiliad y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder i gofnodion troseddol pobl ifanc.

Pennod 3: Gwella'r dalfeydd ieuenctid

16. Er bod llai o lawer yn cael eu cadw yn y ddalfa erbyn hyn, bydd angen y dalfeydd hyn o hyd ar gyfer nifer fach o blant a phobl ifanc sy'n cyflawni troseddau difrifol iawn ac yn peri risg fawr i'r cyhoedd.

17. Er bod nifer y bobl ifanc a gedwir yn y ddalfa wedi gostwng, mae'r rheini sydd ar ôl yn aml yn dreisgar a chanddynt broblemau difrifol. Mae gormod o drais a hunan-niweidio a gormod o ddefnydd ar atal corfforol ac mae cyfraddau aildroseddu pobl ifanc ar ôl eu rhyddhau'n annerbyniol o uchel.

18. Byddwn yn cymryd camau pendant i fynd i'r afael â thrais ac i wella'r canlyniadau i blant a phobl ifanc a gedwir yn y ddalfa.

19. Byddwn yn gwneud hyn:

- Rhoi addysg ac iechyd wrth galon gwaith y dalfeydd ieuenctid. Byddwn yn datblygu llwybr hyfforddi cyn-brentisiaeth a fydd yn dechrau yn y ddalfa ac yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc mewn addysg, hyfforddiant neu waith wrth eu rhyddhau.
- Grymuso llywodraethwyr er mwyn iddynt fod o fwy o help wrth ddiwygio pobl ifanc.
- Cynyddu nifer y staff ar linell flaen weithredol Sefydliadau Troseddwyr Ifanc (STI) 20%.

- Cyflwyno rôl newydd, sef y Swyddog Cyfiawnder Ieuenctid, er mwyn inni gael rhagor o staff sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig i weithio gyda phobl ifanc. Bydd y swyddogion hyn yn cael eu hyfforddi wrth eu gwaith neu'n bobl a gaiff eu recriwtio sydd â phrofiad o waith ieuenctid, gwaith cymdeithasol neu addysgu.
- Bydd gan bob person ifanc swyddog penodedig sy'n gyfrifol am ei herio a'i helpu i ymddiwygio. Bydd un swyddog ar gyfer pob pedwar person ifanc er mwyn sicrhau'r lefel iawn o gefnogaeth. Byddant yn gweithio gyda hwy ar gynllun personol i wella'u hymddygiad, eu haddysg a'u hiechyd.
- Datblygu unedau cymorth arbenigol ychwanegol lle bydd y gymhareb staff/pobl ifanc yn uwch er mwyn cynnig gwell cymorth a chyfarwyddyd seicolegol i'r bobl ifanc fwyaf heriol ac agored i niwed.
- Datblygu dwy 'ysgol ddiogel' - un yng Ngogledd Lloegr ac un Ne Lloegr - gan gydweithio'n agos â'r Adran Addysg ac yn unol ag egwyddorion Adolygiad Taylor.

20. Rheolir Canolfannau Hyfforddi Diogel (CHD) y sector preifat a Sefydliad Troseddwyr Ifanc (STI) y Parc a'u dal yn atebol o dan gontractau manwl a chytundebau perfformiad blynyddol. Rydym yn awyddus i'n diwygiadau ar gyfer cadw pobl ifanc yn y ddalfa fod mor berthnasol ag sy'n bosibl i'r sefydliadau hyn hefyd a byddwn yn cydweithio'n agos â hwy i roi'r newidiadau a gynigiwn ar waith.

21. Mae Cartrefi Diogel i Blant (CDiB) eisoes yn cynnig dull mwy integredig o weithio gyda phlant a phobl ifanc ond byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â'r Adran Addysg i sicrhau bod y bobl ifanc fwyaf agored i niwed a ddedfrydir i gyfnod yn y ddalfa ac a roddir mewn CDiB yn cael eu cadw mewn amgylchedd diogel, gwarchodol a chefnogol.

Pennod 1: Y fframwaith cywir ar gyfer gwella

Mae angen llawer mwy o eglurdeb ac atebolrwydd yn y system er mwyn i bawb fod yn anelu at y nod, sef, lleihau aildroseddu a newid trywydd bywydau. Rydym am weld system effeithiol - yn y gymuned ac yn y ddalfa - ynghyd â safonau perfformiad uchel.

Byddwn yn gwneud hyn:

- Cydweithio â'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI) i adolygu trefniadau llywodraethu'r system a gosod safonau clir a chadarn ar gyfer pawb sy'n gweithio yn y gymuned ac yn y ddalfa.
- Egluro'r swyddogaethau comisiynu a chreu un cyfarwyddwr gweithrediadau ar gyfer dalfeydd ieuenctid a fydd yn gallu cadw gafael tyn ar berfformiad a gweithredu'n gyflym ac yn bendant os digwydd methiant.
- Cryfhau'r trefniadau craffu ac archwilio yn y ddalfa, gan greu mecanwaith newydd i'r arolygiaeth gychwyn y broses ymyrryd mewn sefydliadau sy'n methu. Bryd hynny, bydd yn ddyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i weithredu.
- Parhau i glustnodi grantiau ar gyfer darparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid o fewn cyllid awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod digon o arian ar gael ar gyfer y gwasanaethau hyn.

Cydweithio ag awdurdodau lleol i archwilio sut y gellir rhoi rhagor o hyblygrwydd i ardaloedd lleol er mwyn iddynt wella gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid.

22. Cafodd y system cyfiawnder ieuenctid presennol, system ar wahân ar gyfer rheoli pobl 10-17 oed y mae risg iddynt droseddu neu sydd wedi troseddu, ei sefydlu o dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998.

23. Digwyddodd hyn yn sgil adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn 1996, *Misspent Youth*. Casgliad hwnnw oedd bod diffyg goruchwyliaeth o'r canol dros wasanaethau cyfiawnder ieuenctid ac mai ychydig o gydlynu oedd ar y lefel leol. Canlyniad hyn oedd nad oedd y drefn ar gyfer mynd i'r afael â throseddau ieuenctid nac yn effeithlon nac yn effeithiol.

24. Roedd Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn sefydlu nod statudol clir ar gyfer y system cyfiawnder ieuenctid:

    (1) Prif nod y system cyfiawnder ieuenctid fydd atal troseddu gan blant a phobl ifanc.

    (2) Yn ogystal ag unrhyw ddyletswydd arall a fydd ganddynt, dyletswydd pawb a'r cyrff sy'n cyflawni swyddogaethau yng nghyswllt y system cyfiawnder ieuenctid fydd rhoi sylw i'r nod hwnnw.

25. Yn ogystal â gofynion Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, mae'r rhan fwyaf o'r asiantaethau yn y system cyfiawnder ieuenctid yn dod o dan y ddyletswydd a bennir yn adran 11 o Ddeddf Plant 2004, sef gwneud trefniadau i sicrhau bod eu swyddogaethau'n cael eu cyflawni gyda golwg ar yr angen i ddiogelu a hybu lles plant.

26. Ar lefel genedlaethol, bydd y system yn cael ei goruchwylio gan Fwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr (BCI), corff cyhoeddus anadrannol a grëwyd o dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Mae gan y BCI rôl statudol i gynghori Gweinidogion am sut mae'r system yn gweithredu. Mae hynny'n golygu eu cynghori am gynnwys y safonau gofynnol, a monitro'r system honno, gan gynnwys drwy roi grantiau a monitro perfformiad.

27. Yn sgil deddfwriaeth ddilynol, rhoddwyd pwerau statudol i'r BCI ymgymryd ag amrywiaeth o swyddogaethau cyflawni gweithredol. Mae llawer o'r swyddogaethau'n cydredeg â rhai'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder - h.y. caiff y naill neu'r llall gyflawni'r swyddogaeth honno, ond o safbwynt ymarferol, y BCI sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldebau hyn. Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys rhoi plant a phobl ifanc yn yr ystâd ddiogel, swyddogaethau contractio sy'n berthnasol i ddarparwyr addysg a darparu a gweithredu Canolfannau Hyfforddi Diogel (CHD), a gweinyddu grantiau.

28. Cydnabyddir bod y BCI wedi chwarae rhan arweiniol yn gostwng nifer y bobl ifanc sy'n mynd i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf - 82% rhwng 2007 a 2015 - a gostwng y nifer a gedwir o yn y ddalfa 67% dros gyfnod tebyg. Mae'r BCI wedi goruchwylio sefydlu a gweithredu'n llwyddiannus y Timau Troseddau Ieuenctid (TTI) ac wedi sicrhau mai'r norm yw gweithio ar draws sawl asiantaeth er mwyn mynd i'r afael â throseddu gan bobl ifanc. Mae'n cynnig cyngor gwerthfawr, annibynnol i'r llywodraeth am faterion sy'n berthnasol i'r system cyfiawnder ieuenctid.

29. Ar lefel leol, mae gofyn i bob awdurdod lleol (neu ddau awdurdod neu ragor yn cydweithredu) sefydlu TTI a threfnu i bartneriaid statudol lleol gyfrannu at ei gyfansoddi. Bydd y TTI yn helpu'r heddlu i gwblhau achosion y tu allan i'r llys, yn paratoi adroddiadau cyn-dedfrydu ar gyfer y llysoedd, ac yn goruchwylio pobl ifanc sy'n bwrw dedfryd yn y gymuned neu ar ôl eu rhyddhau o'r ddalfa. Bydd y BCI hefyd yn darparu grant blynyddol, cyfanswm o £67m (sef rhwng 16% ac 85% o gyllid TTI unigol), ond daw'r rhan fwyaf o gyllid y TTI gan yr awdurdodau lleol, a bydd yr heddlu, y gwasanaeth prawf ac awdurdodau iechyd yn cyfrannu at y gweddill. Mae'r grant i'r TTI wedi'i glustnodi ar hyn o bryd er mwyn darparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid. Rydym am gadw at hyn er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn cael y flaenoriaeth y dylent ei chael yn ein barn ni.

30. Mae'r system cyfiawnder ieuenctid yn gwasanaethu Cymru a Lloegr ond mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau i blant a phobl ifanc yng Nghymru wedi'u datganoli. Bydd gan adrannau Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill yng Nghymru sy'n gyfrifol am feysydd megis addysg, tai, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, rôl sylweddol i'w chwarae wrth wireddu'r strategaeth hon.

31. Drwy'r ddogfen hon, lle y cyfeirir at drefniadau yn Lloegr yn y meysydd hyn, byddwn yn archwilio gwaith cyfochrog â Llywodraeth Cymru. Mae gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r BCI hanes cryf o gydweithio â rhanddeiliaid yng Nghymru i gysoni polisi cyfiawnder ieuenctid Llywodraeth y Deyrnas Unedig â pholisïau ehangach ym maes plant yng Nghymru. Byddwn yn parhau i gydweithio fel hyn â'r BCI yng Nghymru ac â Llywodraeth Cymru. Bydd angen i hyn gael ei lywio gan hynt Bil Cymru drwy'r Senedd a datblygiadau yng nghyswllt datganoli i ddinasoedd a rhanbarthau Lloegr.

Ffigur 1: Strwythur llywodraethu presennol y Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid



32. Mae Adolygiad Taylor yn awgrymu bod y problemau y cynlluniwyd y system cyfiawnder ieuenctid presennol i'w datrys wedi newid bellach, ac y dylai'r system newid yn sgil hynny. Mae'n dadlau bod angen ymateb ystyriol a chydlynol gan nifer o bartneriaid i'r ffaith bod nifer lai o blant a phobl ifanc yn y system erbyn hyn ond bod anghenion y rheini'n ddwys. Mae'n awgrymu y byddai'n well gwneud hyn drwy ryddhau awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hyn fel y gwelont yn dda. Mae'r Adolygiad yn argymell datblygu model llywodraethu ac atebolrwydd newydd ar gyfer y system cyfiawnder ieuenctid.

Byddwn yn gwneud hyn:

33. Rydym yn cytuno bod angen diwygio trefniadau llywodraethu'r system cyfiawnder ieuenctid. Byddwn yn cydweithio â'r BCI i adolygu'r fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer y system drwyddi draw, gan ganolbwyntio ar sicrhau canlyniadau a dulliau mesur perfformiad sydd wedi'u diffinio'n glir. Dyma ambell enghraifft o'r dulliau mesur yr ydym wrthi'n eu datblygu.

Ffigur 2: Enghreifftiau o Safonau Cyfiawnder Ieuenctid

Yn y blychau isod, fe welwch rai o'r safonau y bwriadwn eu datblygu ym maes cadw pobl ifanc yn y ddalfa. Lle bydd hynny'n briodol, byddwn yn estyn yr egwyddorion i'r system gyfan.

Safon 1: Gwarchod diogelwch a lles

Mae angen i'r ddalfa fod yn amgylchedd diogel i bobl ifanc ac i'r staff. Yn aml, bydd gan y plant a'r bobl ifanc a gedwir yn y ddalfa anghenion cymhleth o ran eu hymddygiad. Os na lwyddir i fynd i'r afael â'r rhain, gall hynny effeithio ar sefydlogrwydd a diogelwch sefydliadau. Mae angen i'r diwylliant a'r berthynas rhwng pobl yn y ddalfa fod yn gefnogol, ac mae angen gosod terfynau clir a hybu amgylchedd lle nad oes na thrais na niwed.

Diogelwch

Byddwn yn mesur cyfradd yr ymosodiadau ar bobl ifanc ac ar staff i'n helpu i wella sefydlogrwydd sefydliadau ac i ddarparu amgylcheddau gweithio diogel a gwarchodol.

Byddwn yn monitro'r cyfraddau hunan-niweidio er mwyn asesu i ba raddau yr ydym yn llwyddo i ddiwallu anghenion pobl ifanc agored i niwed sydd dan ein gofal.

Byddwn yn defnyddio data am y digwyddiadau lle y bydd pobl yn cael eu hatal yn gorfforol er mwyn sicrhau bod y camau a ddefnyddir i fynd i'r afael â'r digwyddiadau hyn a'u cadw dan reolaeth yn briodol a'u bod yn cyfrannu at sicrhau llai o drais.

Byddwn yn adolygu'r ymatebion i arolwg blynyddol Arolygiaeth Carchardai EM (ACEM) ymhlith plant a gedwir yn y ddalfa er mwyn deall i ba raddau yr ydym yn eu cadw'n ddiogel ac er mwyn deall y diwylliant diogelu yn ein sefydliadau.

Safon 2: Diwygio

Yn ystod eu cyfnod yn y ddalfa, byddwn yn sicrhau bod cyfleoedd a chymorth ar gael i bobl ifanc fynd i'r afael â'u problemau gwaelodol ac i'w helpu i beidio â throseddu eto.

Addysg

Byddwn yn datblygu dulliau trwyadl i fonitro cynnydd addysgol plant a phobl ifanc mewn Saesneg a mathemateg ac i archwilio dulliau i asesu i ba raddau y maent yn datblygu sgiliau.

Ymddygiad

Byddwn yn mesur cynnydd plant a phobl ifanc drwy eu cymharu â'r nodau yn eu cynllun dedfrydu er mwyn asesu i ba raddau y mae eu hymddygiad yn gwella.

Gweithgarwch pwrpasol

Byddwn yn mesur faint y bydd sefydliadau'n defnyddio 'cyfnodau callio' a chadw pobl ar wahân i weld i ba raddau y maent yn darparu trefn sy'n canolbwyntio ar weithgarwch pwrpasol.

Anghenion iechyd

Bydd pob plentyn a pherson ifanc yn cael asesiad iechyd cynhwysfawr wrth gyrraedd y ddalfa. Byddwn yn monitro nifer yr apwyntiadau meddygol ac ymyraethau eraill sy'n gysylltiedig ag iechyd, gan gynnwys unrhyw enghreifftiau o gamddefnyddio sylweddau er mwyn sicrhau ein bod yn dal llywodraethwyr yn atebol am ddiwallu anghenion iechyd.

Byddwn yn gweithio gyda GIG Lloegr, Iechyd Cyhoeddus Lloegr, a Llywodraeth Cymru i wella'r data a gesglir am anghenion iechyd meddwl pobl ifanc yn y ddalfa a byddwn yn defnyddio hyn i er mwyn llunio dulliau i fesur eu cynnydd yn ystod eu cyfnod yn y ddalfa.

Safon 3: Paratoi ar gyfer bywyd yn ôl yn y gymuned

Pan fydd plant a phobl ifanc yn cael eu rhyddhau, byddant yn agored i niwed ac mae perygl iddynt droseddu eto os na chânt gymorth i baratoi ar gyfer bywyd yn y gymuned ar ôl eu rhyddhau.

Mae'n hanfodol nad oes bwlch rhwng y gwaith a wneir yn y gymuned a'r hyn sydd wedi'i wneud yn y ddalfa er mwyn sicrhau cyfnod pontio llwyddiannus.

Olrhain cynnydd ar ôl rhyddhau

Byddwn yn mesur nifer y bobl ifanc sy'n parhau â'u haddysg, â gwaith neu â phrentisiaeth ar ôl eu rhyddhau.

Tai

Dylai pob plentyn a pherson ifanc fod mewn llety addas ar ôl eu rhyddhau a byddwn yn monitro hyn drwy ein fframwaith perfformiad.

Teulu

Dylai pob plentyn gael cymorth aelod o'r teulu neu fentor sy'n oedolyn pan gaiff ei ryddhau. Byddwn yn ceisio datblygu ffordd briodol o fesur y cymorth a ddarperir gan oedolyn.

Safon 4: Gwarchodaeth

Gwarchod plant a phobl ifanc yw un o brif swyddogaethau eu cadw yn y ddalfa ac mae angen inni sicrhau bod sefydliadau'n gwneud popeth yn eu gallu i atal methiannau o ran gwarchodaeth er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc a staff rhag niwed ac er mwyn cynnal amgylchedd sefydlog a diogel yn y ddalfa.

Gwarchodaeth

Mae angen i weithdrefnau gwarchodaeth yn y ddalfa weithio'n effeithiol a bydd y fframwaith perfformiad yn edrych ar gydymffurfio â chwiliadau, cudd-wybodaeth a symud pobl ifanc yn ddiogel.

34. Bydd gwybodaeth am berfformiad ar sail y dulliau mesur pwysicaf yn cael ei chyhoeddi'n rheolaidd. Yn ystâd y dalfeydd, bydd pob TTI a CHT yn y sector cyhoeddus yn cael eu mesur ar sail y safonau hyn yn eu cytundebau lefel gwasanaeth o 2017/18 ymlaen, ond mewn ambell achos, bydd angen rhagor o amser i roi'r dulliau hyn ar waith. Byddwn yn ceisio'u cynnwys, maes o law, mewn contractau â darparwyr y sector preifat. Byddwn hefyd yn adolygu'r dulliau mesur perfformiad ar gyfer TTI a sut y defnyddir y rhain i sicrhau darpariaeth o ansawdd da.

35. Byddwn yn blaenoriaethu egluro'r trefniadau comisiynu a llywodraethu sy'n berthnasol i'r dalfeydd lle bydd y sefyllfa'n arbennig o gymhleth a'r swyddogaethau'n cydredeg ac yn cael eu rhannu rhwng y BCI a'r Ysgrifennydd Gwladol. Y BCI sy'n arwain ar hyn o bryd o ran comisiynu gwasanaethau'r dalfeydd a lleoli plant a phobl ifanc, ond bydd amrywiaeth o ddarparwyr yn darparu lleoedd, gan weithredu o dan wahanol reolau a dilyn fframweithiau perfformiad ac arolygu gwahanol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn atebol yn y pen draw i'r Senedd am ddarparu adnoddau i sicrhau ystâd ddiogel a gwarchodol. Byddwn yn adolygu ymhle y dylai'r swyddogaethau hyn fod er sicrhau'r lles gorau gan ddatblygu strwythur symlach o lawer. Bydd hyn yn cynnwys un pennaeth gweithrediadau sy'n gyffredinol gyfrifol am yr ystâd ddiogel i bobl ifanc yn unig, er mwyn sicrhau bod gafael tyn ar berfformiad o hyd ac y gellir gweithredu'n gyflym ac yn bendant os digwydd unrhyw fethiant.

36. Yn yr ystâd i oedolion, rydym wedi cyhoeddi cynlluniau i gryfhau'r system arolygu a chraffu, gan gynnwys cryfhau pwerau a chylch gwaith ACEM. Rydym yn bwriadu cryfhau'r trefniadau ar gyfer system cyfiawnder ieuenctid mewn modd tebyg, ac, yn benodol, byddwn yn creu proses ffurfiol i sicrhau bod canfyddiadau arolygiaeth am sefydliad lle y cedwir pobl yn y ddalfa'n sbardun i'r Ysgrifennydd Gwladol ymyrryd yn yr achosion gwaethaf.

37. Mae Adolygiad Taylor yn cydnabod bod cryn gynnydd wedi bod o ran y ddarpariaeth yn y gymuned, a bod gwasanaethau lleol bellach yn cydweithio'n fwy effeithiol o lawer. Mae'r TTI wedi datblygu tipyn o arbenigedd dros y blynyddoedd, ac, yn anad dim, wedi meithrin gweithlu sy'n barod i helpu ac i weithio ac ymgysylltu â rhai o'r plant a'r bobl ifanc mwyaf heriol sydd wedi'u niweidio fwyaf yn eu cymunedau.

38. Ers creu'r TTI, mae nifer y bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid wedi gostwng yn ddramatig - er 2006/07 mae'r llwyth achosion statudol wedi gostwng 74% - a'r garfan lai o faint o blant a phobl ifanc sy'n weddill yw'r rhai sy'n tueddu i fod ag ystod o broblemau gwaelodol y mae angen mynd i'r afael â hwy gan nifer o asiantaethau gwahanol a gweithwyr proffesiynol sy'n cydweithio â'i gilydd. Er enghraifft, bydd troseddwyr ifanc yn aml yn cael eu magu mewn amgylchedd teuluol trwblus, byddant

yn tangyflawni yn yr ysgol (a/neu bydd eu cofnod presenoldeb yn wael), bydd ganddynt lefelau uchel o anghenion addysgol arbennig, bydd eu hiechyd meddyliol a chorfforol yn wael, byddant wedi bod yn y system ofal a/neu wedi dioddef eu hunain yn sgil trosedd.

39. Er bod Adolygiad Taylor yn cydnabod y rhan lwyddiannus y mae'r TTI wedi'i chwarae, mae'n argymell dileu'r gofyniad deddfwriaethol i awdurdodau lleol gael Tîm Troseddau Ieuenctid (TTI) ar y sail bod y system bellach wedi'i gorganoli, a bod eu rhyddid i arloesi'n cael ei lyffetheirio yn sgil gofynion adrodd a'r angen i gynhyrchu cynllun blynyddol. Mae'r Adolygiad hefyd yn argymell dileu'r trefniant ar gyfer clustnodi grant i'r TTI a chynnwys yr arian ar gyfer y TTI yng nghyllid cyffredinol yr awdurdod lleol er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd yn lleol.

40. Byddwn yn parhau i glustnodi grantiau ar gyfer darparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid o fewn cyllid awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod digon o arian ar gael ar gyfer y gwasanaethau hyn. Credwn y gellid dadlau o blaid rhoi rhagor o hyblygrwydd i awdurdodau lleol o ran darparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, a byddwn yn edrych eto ar gynigion Adolygiad Taylor yn y maes hwn.

Pennod 2: Mynd i'r afael â Throseddu

Rhaid inni barhau i sicrhau llai o droseddu gan bobl ifanc. Mae'n amlwg mai'r ffordd orau o wneud hyn yw ymyrryd yn gynnar ac atal plant a phobl ifanc rhag troseddu yn y lle cyntaf.

Gwyddom fod plant a phobl ifanc sy'n elwa o nifer o ffactorau gwarchodol - ar lefel unigolion, y teulu a'r gymuned - yn llawer llai tebygol o droseddu a rhaid inni feithrin cydnerthedd pobl ifanc drwy ei gwneud yn haws iddynt gael gafael ar addysg, gwasanaethau iechyd, cymorth i'r teulu a modelau rôl cadarnhaol.

Pan fyddant yn troseddu, rydym yn sylweddoli pa mor bwysig yw ymateb mewn ffordd gymesur sy'n rhoi cyfle i'r bobl ifanc wneud iawn a newid trywydd er mwyn peidio â throseddu eto. Pan fydd plant a phobl ifanc yn cael eu cadw yn nalfa'r heddlu, rhaid ymdrin â hwy'n briodol. Rhaid inni hefyd sicrhau bod trefniadau'r llys ieuenctid a'r trefniadau dedfrydu'n gyflym, yn effeithiol ac yn gallu diwygio'u troseddwyr yn well.

Byddwn yn gwneud hyn:

- Cydweithio ag adrannau eraill y llywodraeth a phartneriaid gan gynnwys y Swyddfa Gartref, yr Adran Addysg a'r BCI i gasglu gwybodaeth a rhannu'r arferion gorau ar draws y system er mwyn llywio rhagor o waith ataliol.
- Cydweithio â GIG Lloegr, yr Adran Addysg a darparwyr iechyd yn y gymuned i wella'r ffordd y caiff plant a phobl ifanc eu hasesu a sicrhau eu bod yn cael y driniaeth sydd ei hangen arnynt ar y cyfle cynharaf posibl.
- Cydweithio â'r Swyddfa Gartref a'r heddlu i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu trin yn briodol yn nalfa'r heddlu.
- Sicrhau bod y profiad a gaiff troseddwyr ifanc a dioddefwyr a thystion ifanc yn y llys yn fwy priodol, drwy beidio â'u gorfodi i ymddangos yn llys yn ddiangen a thrwy gynnal gwrandawiadau cyntaf ar remand yn y llys ieuenctid yn hytrach nag yn llysoedd yr ynadon i oedolion.
- Cydweithio â barnwyr, ynadon, Timau Troseddau Ieuenctid (TTI) y BCI ac eraill i ddatblygu ein hymagwedd at ddiwygio dedfrydu. Yn benodol, byddwn yn archwilio sut y gallwn integreiddio egwyddorion Adolygiad Taylor fwy i'r fframwaith presennol.
- Ymgysylltu â phartïon sydd â diddordeb yn y maes, gan gynnwys y Swyddfa Gartref, y cyfryngau a grwpiau budd cyfiawnder ieuenctid ynglŷn â chyfyngiadau adrodd am bobl ifanc.
- Gweithio gyda'r Swyddfa Gartref i ystyried argymhellion ymchwiliad y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder i gofnodion troseddol pobl ifanc.

Atal ac ymyrryd yn gynnar

41. Mae atal ac ymyrryd yn gynnar yn chwarae rhan bwysig yn atal plant a phobl ifanc rhag cyflawni eu trosedd cyntaf a throseddu eto. Ers i droseddau ieuenctid sydd profedig gyrraedd eu hanterth yn 2007, mae nifer y rhybuddiadau ac euogfarnau i bobl 10-17

oed wedi gostwng 79%. Yn ogystal â hyn, mae nifer y bobl ifanc drwyddi draw sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid wedi gostwng 82% rhwng 2007 a 2015.

42. Mae angen terfynau ar blant a phobl ifanc i'w helpu i ddeall y gwahaniaeth rhwng da a drwg. Gwyddom fod ystod o ffactorau risg sy'n gallu gwneud hi'n fwy tebygol y bydd rhywun yn troseddu ac mae'r ffactorau hyn hefyd yn rhai y gellir eu cysylltu â datblygiad gwael ymhlith plant a llu o broblemau'n ddiweddarach yn eu hoes. Mae'r rhain yn cynnwys: ffactorau unigol megis anableddau dysgu ac anghenion iechyd; ffactorau teulu megis ymddygiad troseddol neu gamddefnyddio sylweddau yn y teulu; ffactorau'n gysylltiedig â'r ysgol megis cyrhaeddiad isel, bwlio a gwahardd o'r ysgol; a'r risgiau sy'n deillio o'r amgylchedd yn y gymuned, gan gynnwys gangiau.

43. Mae gwasanaethau Cyswllt a Dargyfeirio'n hanfodol er mwyn galluogi cymorth priodol i bobl agored i niwed a ddaw i sylw'r system cyfiawnder troseddol. Bydd y rhain yn cael eu comisiynu gan GIG Lloegr i bobl o bob oed ac maent ar gael yng ngorsafoedd yr heddlu a'r llysoedd ar draws mwy na 50% o'r wlad. Mae GIG Lloegr yn disgwyl i'r gwasanaeth fod ar gael ym mhobman erbyn 2021 drwy ledaenu gwasanaethau newydd fesul cam. Mae'r BCI yn cefnogi'r TTI i sicrhau eu bod yn ymwneud yn frwd â thrafodaethau am gomisiynu a darparu'r gwasanaethau hyn. Mae'r gwasanaeth yn ymateb yn ddi-oed i bryderon a godir gan yr heddlu, y gwasanaeth prawf, y timau troseddau ieuenctid neu staff y llysoedd, ac maent yn gallu cynnig gwybodaeth hollbwysig i benderfynwyr yn y system Gyfiawnder, mewn amser real, pan fydd y bobl agored i niwed hyn yn cael eu cyhuddo a'u dedfrydu. Eu nod yw dynodi, asesu a chyfeirio pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, anableddau dysgu a chamddefnyddio sylweddau at wasanaethau triniaeth a chymorth priodol.

Byddwn yn gwneud hyn:

44. Byddwn yn lliniaru'r ffactorau sy'n gallu gwneud troseddu'n fwy tebygol drwy roi cymorth addysgol o safon i blant a phobl ifanc ac amgylcheddau cadarnhaol yn yr ysgol ochr yn ochr â gweithio i helpu teuluoedd a mynd i'r afael â dylanwad negyddol gangiau. Os bydd gan bobl ifanc anghenion iechyd a'u bod yn dod i sylw'r system cyfiawnder troseddol, rydym yn awyddus i sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc hyn yn cael cymorth drwy'r broses (os hynny yw'r ffordd fwyaf priodol o weithredu) neu eu bod yn cael eu cyfeirio at wasanaethau a all fod yn gefn iddynt.

45. Rydym yn cynnal archwiliad o'r cynlluniau atal ac yn casglu ac yn rhannu enghreifftiau o waith lleol, yn ogystal ag o raglenni canolog y llywodraeth sy'n help i atal troseddu. Byddwn yn datblygu ein gwaith drwy weithio gydag adrannau eraill y llywodraeth a phartneriaid gan gynnwys yr Adran Iechyd, y Swyddfa Gartref, yr Adran Addysg, yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol, awdurdodau lleol a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i gasglu gwybodaeth a rhannu'r arferion gorau ar draws y system i lywio rhagor o waith ataliol. Byddwn yn gwella'r trefniadau rhannu data ac yn cryfhau'r sail dystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio. Byddwn yn canolbwyntio'n benodol ar sut y gallwn feithrin cydnerthedd teuluoedd a sicrhau bod oedolion ar gael i fod yn fodelau rôl cryf ac yn fentoriaid pan na fydd teuluoedd yn gefnogol, neu pan fyddant yn ddylanwad gwael. Wrth wneud hyn, byddwn yn dysgu yn sgil profiad y rhaglen Teuluoedd Trwblus, yn enwedig dull y 'teulu cyfan' a model y gweithiwr allweddol.

46. Dyma rai o'r cynlluniau atal sydd ar waith eisoes:

    - Rhoi Diwedd ar Drais a Chamfanteisio gan Gangiau (y Swyddfa Gartref) - rhaglen gan y llywodraeth gyda'r nod o leihau trais, gan gynnwys trais gyda chyllyll, ac amddiffyn unigolion agored i niwed rhag i gangiau gamfanteisio arnynt.
    - Mynd i'r Afael â Throseddu â Chyllyll (y Swyddfa Gartref) - yn gynharach eleni, cyhoeddodd y llywodraeth y Strategaeth Fodern ar gyfer Atal Troseddau sy'n rhestru nifer o gamau i gryfhau ein hymateb i droseddu â chyllyll.
    - Disrespect NoBody (y Swyddfa Gartref) - lansiwyd y cynllun hwn ym mis Chwefror 2015 fel ymgyrch newydd i annog newid ymddygiad er gwell gyda golwg ar bobl yn eu harddegau'n cam-drin eu cyfoedion o fewn perthynas. Cyflwynir ail gam y rhaglen hon ddechrau 2017, gan ganolbwyntio ar gydsynio.
    - Y Gronfa Ymgysylltu Ieuenctid (YEF) - cynllun ar y cyd gan Swyddfa'r Cabinet, yr Adran Gwaith a Phensiynau'r a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder sy'n ceisio mynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad i bobl ifanc ddi-fraint a gostwng nifer y bobl ifanc sy'n treulio cyfnod hir heb fod mewn addysg, gwaith na hyfforddiant gan leihau risg hefyd y byddant yn troseddu.
    - Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol - cynllun dan arweiniad Swyddfa'r Cabinet i bobl ifanc 16 ac 17 oed yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae'n cynnwys rhaglen breswyl gyda phrosiect gweithredu cymunedol 30 awr wedyn. Mae'r BCI wedi gweithio gyda Swyddfa'r Cabinet i hybu'r cynllun ymhlith TTI ac i annog cyfeirio pobl ifanc y mae perygl iddynt droseddu.

47. Byddwn yn parhau i weithio gyda GIG Lloegr a'r Swyddfa Gartref i ddatblygu'r gwasanaeth Cyswllt a Dargyfeirio. Byddwn hefyd yn cydweithio â GIG Lloegr wrth iddynt ddatblygu eu Gwasanaethau Iechyd Meddwl Arbenigol i Blant a'r Glasoed ar gyfer pobl Ifanc Risg Uchel sydd ag Anghenion Cymhleth (FCAMHS Cymunedol) ac yn cydweithio â'r Swyddfa Gartref a'r heddlu i sicrhau bod y bobl ifanc fwyaf agored i niwed sydd ag anghenion cymhleth yn gallu manteisio ar y gwasanaethau hyn yn ddi-oed.

48. Drwy ddatblygu'r gwaith hwn, ein nod fydd mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth a sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd ag anghenion iechyd meddwl fforensig cymhleth yn gallu cael gafael ar wasanaethau priodol yn y gymuned. Ein nod hefyd fydd gwella'r llwybr at wasanaethau cleifion mewnol diogel o'r gwasanaethau iechyd meddwl lleol; a gwella sut y bydd plant a phobl ifanc sy'n gadael y ddalfa neu'n gadael gofal lles diogel yn cael cymorth iechyd meddwl.

49. Gwyddom fod mwy na'u cyfran o blant a phobl ifanc o gefndiroedd ethnig du yn dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid o'u cymharu â'r boblogaeth gyffredinol. Wrth geisio atal troseddu a mynd i'r afael ag ef, byddwn yn ceisio deall y gwahanol brofiadau a sbardunau sy'n gyfrifol am achosi i bobl ifanc fynd i mewn i'r system. Bydd ein gwaith yn y dyfodol yn cael ei seilio ar adolygu'r ffordd y caiff unigolion o gefndir pobl Dduon, Asiaidd a rhai o Leiafrifoedd Ethnig (BAME) eu trin yn y system cyfiawnder troseddol a gynhelir gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder a hefyd yn adolygu eu canlyniadau.

Cysylltiad yr heddlu â phlant a phobl ifanc

50. Mae Adolygiad Taylor yn gwneud nifer o argymhellion ynglŷn â sut mae plant a phobl ifanc yn cael eu trin yn nalfeydd yr heddlu. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau bod merched yn cael swyddog benywaidd sy'n gyfrifol am eu lles a chynigion y bwriedir iddynt helpu i sicrhau ansawdd a chysondeb y cynlluniau Oedolyn Priodol. Mae Oedolyn Priodol yn gyfrifol am amddiffyn hawliau a lles plentyn neu berson ifanc sydd naill ai'n cael ei gadw yn y ddalfa gan yr heddlu neu'n cael ei gyfweld yn wirfoddol o dan rybuddiad.

51. Mae TTI yn gyfrifol am ddarparu Oedolion Priodol ar gyfer plant a phobl ifanc yn y ddalfa os na fydd rhiant neu warcheidwad yn gallu bod yn bresennol. Mae'r Swyddfa Gartref yn noddi'r Rhwydwaith Cenedlaethol Oedolion Priodol, a thasg hwnnw yw helpu asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau Oedolion Priodol a rhannu'r arferion gorau.

Byddwn yn gwneud hyn:

52. Byddwn yn gweithio gyda'r Swyddfa Gartref i sicrhau'r arferion gorau yn y meysydd hyn. Rydym yn cydnabod bod angen dargyfeirio plant a phobl ifanc oddi wrth ddalfa'r heddlu lle bydd hynny'n briodol. Rhaid cadw'r ddysgl yn wastad rhwng gwneud hyn a sicrhau bod yr heddlu'n gallu gwneud eu gwaith ar bob achlysur. Byddai unrhyw ragdybiaeth na ddylid arestio plant a phobl ifanc na dod a hwy i orsafoedd yr heddlu yn tarfu ar allu'r heddlu i amddiffyn y cyhoedd a dioddefwyr. Rydym hefyd yn sylweddoli bod darpariaethau sylweddol ar gael i amddiffyn lles a diogelwch plant a phobl ifanc sydd o dan amheuaeth yn nalfeydd yr heddlu, er enghraifft camau diogelu megis recordiadau sain a gofal meddygol. Ni fyddai camau diogelu fel hyn ar gael petai plant a phobl ifanc yn cael eu cyfweld mewn mannau eraill. Mae Adran 31 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 eisoes yn cynnwys gofyniad cyfreithiol i drefnu i ferched o dan 18 oed fod o dan ofal menyw pan gaiff ei chadw yn un o swyddfeydd yr heddlu. Mae'r Swyddfa Gartref yn cyflwyno canllawiau newydd am hyn fel rhan o'r gwaith i ddiwygio codau ymarfer Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE). Rydym yn disgwyl gweld y codau diwygiedig yn dod i rym yn gynnar y flwyddyn nesaf.

53. Mae'r gyfraith yn glir ei bod yn rhaid trosglwyddo plant a phobl ifanc a gyhuddir o drosedd ac y gwrthodir mechnïaeth iddynt i lety'r awdurdod lleol, oni fydd amgylchiadau eithriadol. Byddwn yn gweithio gyda'r Swyddfa Gartref, yr heddluoedd a'r awdurdodau lleol i wella'r ffordd y caiff y gofynion hyn eu monitro ac i wella'r cydymffurfio â hwy.

54. Er, mewn rhai achosion, y gall gweithiwr proffesiynol gyflawni rôl yr Oedolyn Priodol, yn aml iawn, rhiant neu warcheidwad fydd yn gwneud y gwaith hwn. Bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gweithio gyda'r Swyddfa Gartref a'r Adran Addysg i ystyried newid yr hyfforddiant a'r canllawiau a roddir i Oedolion Priodol ond mae'n cydnabod y bydd cyfyngiadau ymarferol ar faint o wybodaeth a chymorth y gellir ei roi mewn gwirionedd i rieni neu warcheidwaid cyn iddynt ymuno â'u plant yn y ddalfa.

Llysoedd

55. Bydd angen i blant a phobl ifanc sy'n mynd i'r llys allu deall yr hyn sy'n digwydd a chymryd rhan yn y broses. Os bydd plentyn neu berson ifanc yn dod gerbron y llysoedd troseddol oherwydd trosedd honedig, byddant fel rheol yn cael eu profi, a lle bo hynny'n briodol, yn cael eu dedfrydu gan y llys ieuenctid.

56. Mae gweithdrefnau'r llys ieuenctid a'r ystafell ei hun wedi cael eu haddasu er mwyn helpu plant a phobl ifanc i ddeall a chymryd rhan yn yr achos. Ynadon sydd wedi'u hyfforddi'n benodol a barnwyr rhanbarth sy'n llywyddu er mwyn sicrhau bod y broses yn addas i bobl ifanc. Er mwyn helpu i gadw mwy o achosion difrifol yn y llys arbenigol hwn, bydd gan y llys ieuenctid bwerau dedfrydu ehangach nag sydd gan y llysoedd ynadon i oedolion, er enghraifft, y pŵer i orfodi dedfrydau am hyd at 24 mis o hyd (12 mis yn y ddalfa, 12 mis yn y gymuned). Os bydd person ifanc yn cael ei drin yn hytrach ym mhrif ffrwd y llysoedd ynadon neu yn Llys y Goron, gall y barnwr newid y weithdrefn a phrosesau i sicrhau bod y gweithdrefnau mor debyg â phosibl i weithdrefnau'r llys ieuenctid.

57. Mae Adolygiad Taylor yn nodi nifer o rwystrau y mae'r llysoedd yn eu hwynebu wrth ymdrechu i ddarparu ffordd wahanol ac arbenigol o drin plant a phobl ifanc, ac o ddarparu lleoliadau priodol ar gyfer treialon a dedfrydu. Yn benodol, mae a wnelo'r argymhellion hyn â'r pwerau sydd ar gael i'r llysoedd a chynrychiolaeth gyfreithiol ac maent yn pwysleisio nad yw difrifoldeb y broses a'r weithdrefn yn Llys y Goron yn cydweddu'n rhwydd ag anghenion plant a phobl ifanc.

58. Mae'r Adolygiad yn argymell diwygiadau mewn sawl maes:

    - Y cymorth sydd ar gael i ddiffynyddion ifanc mewn achosion troseddol - er mwyn i'w rhieni, eu gwarcheidwaid a'u gofalwyr fod gyda nhw fel sy'n briodol a'u bod yn cael eu cynrychioli gan eiriolwyr sydd â phrofiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc, gwybodaeth am ddeddfwriaeth cyfiawnder ieuenctid a'r hyfforddiant a'r sgiliau iawn.
    - Camau i newid y ffordd y bydd plant a phobl ifanc yn cael eu trin yn y llys - o ran sut y rhestrir achosion a hefyd drwy gadw rhagor o achosion yn y llys ieuenctid yn hytrach na'u hanfon i Lys y Goron.
    - Gwella'r dulliau sydd ar waith i warchod pobl ifanc - er mwyn i gyfyngiadau ar adrodd am achosion pobl ifanc fod yn berthnasol ym mhob rhan o'r drefn cyfiawnder ieuenctid gan helpu'r bobl ifanc hyn i adsefydlu am gyfnod hwy.

Byddwn yn gwneud hyn:

59. Ym mis Medi eleni, cyhoeddodd yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus, ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd ddatganiad ar y cyd am eu cydweledigaeth ar gyfer dyfodol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi. Fel rhan o'n diwygiadau, rydym am sicrhau bod proses y llysoedd yn gyflym, yn deg ac yn ddealladwy i'r plant a'r bobl ifanc hynny a gyhuddir o drosedd.

60. Yn sgil hyn, rydym yn gweithio i symleiddio'r system er mwyn sicrhau bod camweddau troseddol yn cael eu trafod yn y ffordd fwyaf cymesur a phriodol, gan warantu gwrandawiad teg serch hynny. Mae hyn yn waith arbennig o bwysig oherwydd bod y gostyngiad yn nifer y plant a'r bobl ifanc sydd ar lwyth gwaith y llysoedd troseddol yn achosi anawsterau trefniadaethol am nad yw'r llys ieuenctid yn eistedd mor aml bellach.

61. Yn benodol, rydym yn newid y ffordd y bydd achosion yn mynd ar eu hynt drwy'r llysoedd troseddol. Drwy symud rhagor o wasanaethau arlein a defnyddio technoleg fideo'n amlach, ni fydd angen i berson ifanc a'i riant neu ei warcheidwad deithio i'r llys gynifer o weithiau. Gan amlaf, bydd diffynyddion ifanc yn dal i ymddangos eu hunain yn y llys ar gyfer treial a gwrandawiadau dedfrydu ac ystyried pa mor bwysig yw hi eu bod yn ymwneud â'r achos a'u bod yn cymryd rhan ynddo. Byddwn yn sicrhau bod diffynyddion, rhieni, gwarcheidwaid neu gynrychiolwyr awdurdodau lleol yn cael eu hysbysu mewn ffordd fwy effeithlon bod disgwyl iddynt fod yn bresennol mewn treialon a gwrandawiadau dedfrydu.

62. Rydym hefyd wedi ymrwymo i helpu dioddefwyr a thystion sy'n agored i niwed ac i'w dychrynu, gan gynnwys plant, pan fyddant yn rhoi eu tystiolaeth. Dyma pam rydym yn lledaenu trefniadau i recordio'r croesholi cyn y treial o 2017 ymlaen, gan adael i dystion recordio eu croesholi cyn y prif dreial fel nad oes yn rhaid iddynt fod yn bresennol yn y treial ei hun. Rydym hefyd wedi sefydlu dros 20 o safleoedd cyswllt-byw o bell drwy Gymru a Lloegr er mwyn i dystion agored i niwed ac i'w dychrynu allu dewis rhoi eu tystiolaeth o rywle arall, ar wahân i adeilad y llys.

63. Yn 2015, ni roddwyd dedfryd o gyfnod yn y ddalfa i gyfran fawr (68%) o bobl ifanc a oedd ar remand diogel yn llysoedd yr ynadon. Drwy ddefnyddio rhagor ar dechnoleg fideo, bydd cyfle i'r gwrandawiadau remand cychwynnol gael eu trin gan y llys ieuenctid yn hytrach na chan brif ffrwd y llysoedd ynadon, fel sy'n digwydd yn aml ar hyn o bryd. Efallai felly y gallai'r gwrandawiadau remand cychwynnol hyn elwa o arbenigedd y farnwriaeth a staff y llysoedd sydd wedi'u hyfforddi'n benodol i weithredu o fewn fframwaith ar wahân arbennig ar gyfer pobl ifanc ar remand.

64. Rydym ninnau hefyd yn poeni fel y mae Adolygiad Taylor am gynrychiolaeth gyfreithiol yn y llys ieuenctid ac yn croesawu'r camau diweddar a gymerwyd gan Fwrdd Safonau'r Bar a'r Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr i wella'r hyfforddiant sydd ar gael ym maes achosion ieuenctid. Byddwn yn ystyried a ddylai fod rhagor o gymorth ar gael i bobl ifanc yn y llys.

65. Rydym yn deall y pryderon a godwyd gan Adolygiad Taylor (a chyn hynny gan yr Arglwydd Carlile ac eraill) ynghylch pa mor briodol yw Llys y Goron i wrando rhai achosion ieuenctid. Serch hynny, bydd symud rhagor o achosion o Lys y Goron i'r llys ieuenctid yn codi cwestiynau sylweddol, ynghylch yr hawl i gael treial gan reithgor, er enghraifft. Byddwn felly'n trafod y materion hyn â'r farnwriaeth ac â phartïon eraill sydd â diddordeb yn y maes.

66. Rydym hefyd yn nodi pryder Adolygiad Taylor bod gwybodaeth a gyhoeddir yn ystod ymchwiliadau troseddol sy'n datgelu pwy yw person ifanc yn gallu tanseilio'r cyfyngiad statudol ar adrodd am bobl ifanc yn ystod achosion llys troseddol; ac y gall cyhoeddi pwy ydynt ar ôl iddynt gyrraedd 18 oed amharu ar eu hadsefydlu wrth iddynt gamu i fyd oedolion. Mae'n amlwg y bydd ehangu'r fframwaith cyfyngiadau adrodd am bobl ifanc eto yn codi mater pwysig ynghylch cyfiawnder agored, sy'n hanfodol er mwyn sicrhau treialon teg a chynnal ymddiriedaeth y cyhoedd yn y system cyfiawnder troseddol. Byddwn yn trafod y cynigion hyn â phartïon sydd â diddordeb yn y maes, gan gynnwys y Swyddfa Gartref, y cyfryngau a grwpiau budd ym maes cyfiawnder ieuenctid er mwyn deall yn well y ddadl o blaid newid ac ystyried y ffordd orau o fwrw ymlaen.

Dedfrydu

67. Mae'r fframwaith dedfrydu ar gyfer plant a phobl ifanc yn wahanol i'r fframwaith ar gyfer oedolion. Mae'n rhaid i'r barnwr neu'r ynad mewn unrhyw achos penodol roi sylw, ymhlith pethau eraill i brif nod y system cyfiawnder ieuenctid - atal troseddu - a dylai'r ddedfryd a roddir fod yn gefn i'r nod hwnnw.

68. Dylai dedfrydau a roddir i blant a phobl ifanc fynd i'r afael â'r rhesymau dros eu troseddu:

    - Gellir rhoi Gorchmynion Atgyfeirio pan fydd pobl ifanc yn pledio'n euog i drosedd. Cyfeirir y rhain at banel o ddau wirfoddolwr hyfforddedig yn y gymuned ac aelod o'r tîm troseddau ieuenctid am dri mis fan leiaf ac am ddeuddeg mis fan hwyaf.
    - Mae'r Gorchymyn Adsefydlu Ieuenctid, a gyflwynwyd yn 2009, yn rhoi dewislen o 18 o ofynion i'r llys ddethol o'u plith (megis addysg, gweithgaredd neu ofynion cyrffyw). Mae hyn hefyd yn cynnwys dau ddewis amgen, rhai dwys iawn, yn hytrach na threulio cyfnod yn y ddalfa (goruchwyliaeth a gwyliadwriaeth ddwys a maethu dwys).
    - Mae dedfrydau cadw yn ddalfa ar gael ar gyfer y troseddwyr mwyaf difrifol a mynych. Bwriad y brif ddedfryd o gyfnod yn y ddalfa i blant a phobl ifanc, sef y Gorchymyn Cadw a Hyfforddi, yw eu harfogi â'r addysg, y sgiliau a'r hyfforddiant sydd eu hangen arnynt i'w hatal rhag troseddu rhagor.
    - Ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol, gall Llys y Goron ddedfrydu plant a throseddwyr ifanc rhwng 10 ac 17 oed i ddedfrydau tymor hir ac i garchar am oes (Cadw hyd y Mynno Ei Mawrhydi)

69. Mae dedfrydu pobl ifanc yn broses gymhleth. Rhaid i'r llys ystyried difrifoldeb y trosedd a phrif nod y system cyfiawnder ieuenctid gan gadw'r ddysgl yn wastad rhwng lles y plentyn a'r angen i sicrhau bod y cyhoedd a dioddefwyr yn cael eu gwarchod. Mae'r adroddiad cyn-dedfrydu sy'n cael ei baratoi gan y TTI yn bwysig wrth i'r llys benderfynu beth yw'r ddedfryd fwyaf priodol.

70. Mae Adolygiad Taylor yn argymell mynd ati mewn ffordd fwy cyfannol wrth ddedfrydu, gan ystyried, nid dim ond y ffactorau sy'n berthnasol i'r trosedd penodol ond hefyd y pethau sy'n waelodol i'r ymddygiad hwnnw, gan gymryd camau i fynd i'r afael â hwy drwy broses hyblyg.

71. Mae'r ddeddfwriaeth eisoes yn mynnu ei bod yn rhaid i'r sawl sy'n gweithio yn y system cyfiawnder ieuenctid ystyried lles y plentyn. Mae deddfwriaeth a chanllawiau ar gael hefyd ynghylch y ffactorau y dylid eu hystyried wrth ddedfrydu, a chadw yn y ddalfa fydd y dewis olaf pan fydd pethau wedi mynd i'r pen. Rydym yn cytuno ag Adolygiad Taylor fod yn rhaid i ddedfrydu helpu pobl ifanc i gael yr ymyriadau sydd eu hangen arnynt i'w helpu i ddiwygio'u bywydau a'u hatal rhag troseddu eto, ac y gellid cryfhau rôl y farnwriaeth eto yn y cyswllt hwn.

72. Mae Adolygiad Taylor yn argymell gwahanu'r broses o sefydlu euogrwydd oddi wrth y dedfrydu drwy sefydlu Paneli Plant i ysgwyddo swyddogaethau dedfrydu'r llys ieuenctid a llunio cynllun hyblyg i fynd i'r afael ag ymddygiad plant a phobl ifanc. Byddai hyn yn ffordd newydd radical o reoli plant sy'n troseddu, ac mae ystod o faterion cyfreithiol ac ymarferol y byddai angen eu hystyried wrth gynllunio system o'r fath.

73. Serch hynny, rydym o blaid yr egwyddorion sy'n sail i'r argymhelliad hwn. Gellid eu disgrifio fel hyn:

    - Cryfhau ymwneud y llysoedd a'r ynadon â phlant a phobl ifanc sy'n troseddu.
    - Cryfhau'r ffordd y mae pobl ifanc sy'n bwrw dedfryd yn y gymuned yn cael eu rheoli er mwyn sicrhau mai dim ond pan fydd pethau wedi mynd i'r pen y cânt eu cadw yn y ddalfa.
    - Dal plant a phobl ifanc a hefyd y sawl sy'n gyfrifol am eu cefnogi a gofalu amdanynt yn atebol.
    - Defnyddio mewn ffordd fwy hyblyg ddedfrydau sy'n mynd i'r afael â'r ffactorau sy'n cynyddu'r risg o droseddu ac o bosibl sy'n mynd i'r afael ag anghenion lles ehangach plant a phobl ifanc.
    - Mabwysiadu, lle bo modd, nodweddion y dull datrys problemau.

74. Mae Adolygiad Taylor hefyd yn argymell cyfyngu ar ddedfrydau byr yn y ddalfa er mwyn i sefydliadau gael digon o amser i weithio gyda phlant a phobl ifanc a ddedfrydir i gyfnod dan glo, er mwyn lleihau'r risg iddynt aildroseddu yn y dyfodol. Er ein bod yn sylweddoli y gall cyfnod byr yn y ddalfa darfu ar fywyd ac addysg person ifanc heb i hynny o anghenraid roi digon o amser i'r rheini sy'n rhedeg y sefydliad sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd ystyrlon, mae perygl i hyn greu gwrthgymhellion. Rydym yn awyddus i gydweithio â'r farnwriaeth a gweithwyr proffesiynol ym maes cyfiawnder ieuenctid i ddeall y peryglon hyn yn well ac i wella effeithiolrwydd cyffredinol y fframwaith dedfrydu i bobl ifanc.

Byddwn yn gwneud hyn:

75. Byddwn yn cydweithio â barnwyr, ynadon, Timau Troseddau Ieuenctid (TTI) y BCI ac eraill i ddatblygu ein hymagwedd at ddiwygio dedfrydu. Yn benodol, byddwn yn archwilio sut y gallwn integreiddio egwyddorion Adolygiad Taylor fwy i'r fframwaith presennol.

Cofnodion Troseddol

76. Mae Adolygiad Taylor yn argymell y dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Swyddfa Gartref ddatblygu ffordd wahanol o ymdrin â throseddau yn ystod plentyndod yn y system cofnodion troseddol gan ystyried y cydbwysedd rhwng canlyniadau tymor hir cael cofnod troseddol a'r angen i warchod y cyhoedd a chyflogwyr rhag risg a hyrwyddo ailintegreiddio ac adsefydlu troseddwyr ifanc.

Byddwn yn gwneud hyn:

77. Rydym yn sylweddoli y gall cofnodion troseddol yn ystod plentyndod effeithio ar gyfleoedd bywyd yn y dyfodol. Serch hynny, mae nifer o achosion gerbron y llysoedd sy'n ymwneud â'r polisi datgelu fel y mae ar hyn o bryd. Rydym hefyd yn edrych ymlaen at weld gwireddu canfyddiadau'r ymchwiliad i'r maes hwn sydd ar y gweill yn awr gan y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder. Ein bwriad yw gweithio gyda'r Swyddfa Gartref i ystyried y rhain ac argymhellion Adolygiad Taylor yn llawnach ar ôl clywed dyfarniad y Llys.

Pennod 3: Gwella'r dalfeydd ieuenctid

Er bod llai o lawer yn cael eu cadw yn y ddalfa erbyn hyn, bydd angen y dalfeydd hyn o hyd ar gyfer nifer fach o blant a phobl ifanc sy'n cyflawni troseddau difrifol iawn ac yn peri risg fawr i'r cyhoedd.

Er bod nifer y bobl ifanc a gedwir yn y ddalfa wedi gostwng, mae'r rheini sydd ar ôl yn aml yn dreisgar a chanddynt broblemau difrifol. Mae gormod o drais a hunan-niweidio a gormod o ddefnydd ar atal corfforol ac mae cyfraddau ailroseddu pobl ifanc ar ôl eu rhyddhau'n annerbyniol o uchel.

Byddwn yn cymryd camau pendant i fynd i'r afael â thrais ac i wella'r canlyniadau i blant a phobl ifanc a gedwir yn y ddalfa.

Byddwn yn gwneud hyn:

- Rhoi addysg a iechyd wrth galon gwaith y dalfeydd ieuenctid. Byddwn yn datblygu llwybr hyfforddi cyn-brentisiaeth a fydd yn dechrau yn y ddalfa ac yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc mewn addysg, hyfforddiant neu waith wrth eu rhyddhau.
- Grymuso llywodraethwyr er mwyn iddynt fod o fwy help i ddiwygio pobl ifanc.
- Cynyddu nifer y staff ar linell flaen weithredol Sefydliadau Troseddwyr Ifanc (STI) 20%.
- Cyflwyno rôl newydd, sef y Swyddog Cyfiawnder Ieuenctid, er mwyn inni gael rhagor o staff sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig i weithio gyda phobl ifanc. Bydd y swyddogion hyn yn cael eu hyfforddi wrth eu gwaith neu'n bobl a gaiff eu recriwtio sydd â phrofiad o waith ieuenctid, gwaith cymdeithasol neu addysgu.
- Bydd gan bob person ifanc swyddog penodedig sy'n gyfrifol am ei herio a'i helpu i ymddiwygio. Bydd un swyddog ar gyfer pob pedwar person ifanc er mwyn sicrhau'r lefel iawn o gefnogaeth. Byddant yn gweithio gyda hwy ar gynllun personol i wella'u hymddygiad, eu haddysg a'u hiechyd.
- Datblygu unedau cymorth arbenigol ychwanegol lle bydd y gymhareb staff/pobl ifanc yn uwch er mwyn cynnig gwell cymorth a chyfarwyddyd seicolegol i'r bobl ifanc fwyaf heriol ac agored i niwed.
- Datblygu dwy 'ysgol ddiogel' - un yng Ngogledd Lloegr ac un yn Ne Lloegr - gan gydweithio'n agos â'r Adran Addysg ac yn unol ag egwyddorion Adolygiad Taylor.

Rheolir Canolfannau Hyfforddi Diogel y sector preifat a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc a'u dal yn atebol o dan gontractau manwl a chytundebau perfformiad blynyddol. Rydym yn awyddus i'n diwygiadau ar gyfer cadw pobl ifanc yn y ddalfa fod mor berthnasol ag sy'n bosibl i'r sefydliadau hyn hefyd a byddwn yn cydweithio'n agos â nhw i roi'r newidiadau a gynigiwn ar waith.

Mae Cartrefi Diogel i Blant eisoes yn cynnig dull mwy integredig o weithio gyda phlant a phobl ifanc ond byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â'r Adran Addysg i sicrhau bod y bobl ifanc fwyaf agored i niwed a ddedfrydir i gyfnod o yn y ddalfa ac a roddir mewn Cartref Diogel yn cael eu cadw mewn amgylchedd diogel, gwarchodol a chefnogol.

78. Mae'r ystâd ddiogel i bobl ifanc yn wahanol i ystâd y carchardai i oedolion ac mae'n cynnwys tri math o sefydliad. Mae'r BCI yn penderfynu ynglŷn â lleoli drwy ddefnyddio'r wybodaeth a ddarperir gan brif randdeiliaid ar y pwynt y penderfynir rhoi pobl ifanc yn y ddalfa, gan gynnwys ystyried eu risgiau fel unigolion, eu hanghenion a'r adnoddau sydd ar gael:

    - **Sefydliadau Troseddwyr Ifanc (STI):** Mae rhwng 60 a 340 o leoedd yn y rhain. Mae STI y sector cyhoeddus yn debyg i garchardai oedolion o rai eu cynllun ac yn darparu llety i fechgyn 15-17 oed. Ar hyn o bryd darperir cyfanswm o ychydig o dan 900 o leoedd mewn pum STI. Mae pedwar o'r STI yn cael eu gweithredu gan GCRhT ac un (STI y Parc yng Nghymru) gan G4S. Uned ar wahân sy'n darparu 60 o leoedd ar yr un safle â'r carchar i oedolion yw STI y Parc.
    - **Canolfannau Hyfforddi Diogel (CHD)**: Sefydliadau llai wedi'u hadeiladu'n arbennig at y diben yw'r rhain i letya rhwng 60-80 o fechgyn a merched 12-17 oed. Mae'r gymhareb staff-i-bobl ifanc yn uwch yn y CHD nag yn y STI ac fe'u defnyddir i letya pobl ifanc sy'n fwy agored i niwed. Mae oddeutu 220 o leoedd ar gael ar hyn o bryd mewn tair CHD. Mae dwy o'r CHD yn cael eu rhedeg gan ddarparwyr preifat: G4S yn CDH Oakhill ac MTC NOVO yn CHD Rainsbrook. GCRhT sy'n rhedeg CHD Medway.
    - **Cartrefi Diogel i Blant (CDiB)**: Mae'r gymhareb staff i bobl ifanc yn y sefydliadau hyn yn uchel a chyfleusterau bach yw'r rhain sy'n cynnwys rhwng 7 a 38 o welyau. Maent wedi'u cynllunio i letya bechgyn a merched 10-17 oed yr asesir eu bod yn arbennig o agored i niwed. Maent yn cael eu gweithredu gan awdurdodau lleol neu'n cael eu rhedeg gan ddarparwyr ar eu rhan. Mae'r BCI ar hyn o bryd yn comisiynu 117 o leoedd mewn CDiB i gadw pobl ifanc sydd wedi'u dedfrydu i gyfnod yn y ddalfa neu sydd ar remand.

79. Mae nifer y plant a'r bobl ifanc a gedwir yn y ddalfa wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y degawd diwethaf o 2,900 yn 2007/8 i oddeutu 900 o bobl dan 18 oed yn ein hystâd yn awr. Mae hyn wedi golygu bod y BCI wedi gallu datgomisiynu 22 o safleoedd (o 38 i 16) a gostwng nifer y gwelyau a gomisiynir 64%, o 3,500 i 1,240.

80. Wrth i nifer y plant a'r bobl ifanc yn y system ostwng, mae nodweddion y rheini a ddedfrydir i gyfnod yn y ddalfa wedi newid.

    - Cedwir llai o ferched a llai o blant 10-14 oed yn y ddalfa. Ym mis Medi 2016, dim ond 27 o ferched a 36 o fechgyn 10-14 oed oedd yn y ddalfa.
    - Mae cynnydd wedi bod yng nghyfran y bobl ifanc dduon, a rhai o gefndir lleiafrif ethnig a gedwir yn y ddalfa. Gwelwyd gostyngiad yn nifer y bobl ifanc o gefndir ethnig gwyn o 68% i 58% rhwng 2009/10 a 2015/16.

81. Mae Adolygiad Taylor yn cyfeirio at broblemau wrth ddarparu cymorth priodol i blant a phobl ifanc mewn TTI a CHD. Yn benodol, mae'r Adolygiad yn poeni y gall y rhain fod yn rhy fawr, yn canolbwyntio gormod ar drefniadau diogelwch (yn hytrach nag ar addysg a lles pobl ifanc) ac nad oes gan lywodraethwyr ddigon o ryddid i recriwtio a hyfforddi'r corff iawn o staff i weithio gyda phlant.

82. Gall plant a phobl ifanc a gedwir yn y ddalfa beri risg uchel i'r cyhoedd ond gallant hefyd fod yn agored iawn i niwed:

    - Roedd 37% o'r bechgyn mewn STI yn 2015/16 wedi bod mewn gofal.
    - Dywedodd 86% o'r bechgyn yn 2015/16 eu bod wedi cael eu gwahardd o'r ysgol (naill ai dros dro neu'n barhaol) yn y gorffennol.
    - Roedd 45% wedi'u cofnodi'n rhai ag AAA heb ddatganiad ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4. O'r rheini a oedd yn bwrw dedfryd yn y ddalfa am gyfnod llai na 12 mis, roedd gan 28% AAA gyda datganiad (ffigurau wedi'u seilio ar nodweddion o flwyddyn academaidd 2012/13).

83. Mae trais yn yr ystâd yn y ddalfa i bobl ifanc yn destun pryder difrifol:

    - Gwelwyd cynnydd o 54% yn 2009/10 i 68% yn 2014/15 yng nghyfran y rheini a oedd wedi'u rhoi yn y ddalfa oherwydd troseddau treisgar, lladrad a throseddau rhyw.
    - Yn 2014/15, bu 16.2 o ymosodiadau fesul 100 person ifanc yn y ddalfa bob mis.
    - Rhwng 2009/10 a 2014/15, gwelwyd cynnydd o 79% yng nghyfradd yr ymosodiadau fesul 100 o bobl ifanc yn y ddalfa bob mis, ac yn ystod yr un cyfnod, mae cyfraddau'r hunan-niweidio fesul 100 o bobl ifanc yn y ddalfa bob mis wedi cynyddu 46%.
    - Yn ôl adroddiadau ACEM, yn ystod y 12 mis diwethaf, gwelwyd cynnydd sylweddol yng nghyfradd y bechgyn mewn STI a ddywedodd eu bod yn cael eu herlyn gan garcharorion eraill (35% yn 2015/16 o'i gymharu â 26% yn 2014–15) neu aelodau o'r staff (32% yn 2015/16 o'i gymharu â 25% yn 2014–15).

84. Mae cyfraddau aildroseddu profedig plant a phobl ifanc sy'n cael eu rhyddhau o'r ddalfa'n dal yn annerbyniol o uchel:

    - Ar ôl eu rhyddhau, y gyfradd aildroseddu i bobl ifanc yw 69% o'i chymharu â 45% i oedolion.
    - O blith yr holl bobl ifanc a gaiff eu rhyddhau o'r ddalfa, anfonir 35% yn ôl am y trosedd cyntaf y byddant yn ei gyflawni o fewn 12 mis i'w rhyddhau.
    - Y cyfraddau aildroseddu i'r rheini sy'n bwrw dedfryd fer yn y ddalfa yw'r uchaf yn y system cyfiawnder troseddol: o blith y rheini sy'n cael eu rhyddhau ar ôl dedfryd o 6 mis neu lai, roedd 78% yn aildroseddu o fewn blwyddyn.

Gwella addysg a helpu pobl ifanc i gael prentisiaeth, hyfforddiant a gwaith wrth eu rhyddhau

85. Mae anghenion addysgol plant a phobl ifanc a gedwir yn y ddalfa yn rhai difrifol. Mewn ymarfer cyfatebu data'n ddiweddar rhwng y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Adran Addysg, gwelwyd, ar gyfer y rheini a ddedfrydwyd i gyfnod yn y ddalfa yn 2014:

    - mai 1% o'r rheini a ddedfrydwyd i lai na 12 mis a lwyddodd i gael 5 TGAU (neu gymhwyster cyfwerth) ar radd A* - C gan gynnwys Saesneg a Mathemateg. Y ffigur cyfatebol ar gyfer y rheini a ddedfrydwyd i gyfnod o 12 mis neu ragor yn y ddalfa oedd 7% (seiliwyd y ffigurau ar ganlyniadau blwyddyn academaidd 2012/13).

- Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (10/11 oed), llwyddodd 47% o'r rheini a ddedfrydwyd i lai na 12 mis yn y ddalfa i gyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn Mathemateg. Llwyddodd dros hanner (56%) ohonynt i gyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn darllen a 28% i gyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn ysgrifennu (seiliwyd y ffigurau ar ganlyniadau blwyddyn academaidd 2012/13).
- Gwyddys fod 44% yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 (15/16 oed) ym mlwyddyn academaidd 2012/13 (seiliwyd y ffigurau ar nodweddion blwyddyn academaidd 2012/13).
- Roedd 31% o'r rheini a ddedfrydwyd i 12 mis neu fwy yn y ddalfa wedi bod yn derbyn gofal (dan ofal awdurdod lleol) ar 31 Mawrth 2014. Y ffigur cyfatebol ar gyfer y rheini a ddedfrydwyd i lai na 12 mis yn y ddalfa oedd 27%.
- Mae gan 9 o bob 10 gofnod blaenorol o absenoldeb mynych o'r ysgol. Mae bron chwarter y rheini a ddedfrydwyd i lai na 12 mis yn y ddalfa wedi cael eu gwahardd o'r ysgol yn barhaol.

86. Cynllun diweddar a oedd yn ceisio cynyddu faint o addysg a ddarperid mewn STI oedd y Rhaglen Trawsnewid Dalfeydd Ieuenctid. Drwy gontractau addysg newydd a ddechreuodd ym mis Ebrill 2015, cyflwynwyd gofyniad i ddarparu 30 awr o addysg bob wythnos i blant a phobl ifanc mewn STI, gan gynnwys 3 awr o ymarfer corff.

Byddwn yn gwneud hyn:

87. Mae'r ystadegau'n dangos yn glir y garfan heriol o blant a phobl ifanc a gedwir yn y ddalfa, ond ni ddylai'r ffaith fod yr angen yn fawr fod yn esgus dros ddiffyg dyhead. Rydym yn awyddus i weld plant a phobl ifanc yn cael eu cadw'n brysur drwy'r dydd mewn addysg a hyfforddiant, a bod y cwricwlwm craidd yn canolbwyntio ar eu paratoi ar gyfer gwaith, prentisiaeth neu i barhau â'u haddysg pan fyddant yn dychwelyd i'w cymunedau.

88. Mae'r contractau addysg cyfredol yn cydnabod bod angen blaenoriaethu addysgu Saesneg a mathemateg. Y pynciau hyn yw'r sylfaen ar gyfer pob math arall o ddysgu a byddwn yn mesur cynnydd plant a phobl ifanc yn y pynciau hyn drwy ein safonau perfformiad newydd. Byddwn yn gweithio gyda'r Adran Addysg i gynllunio dulliau mesur sy'n gadarn ac yn adlewyrchu'r safonau gorau.

89. Er mwyn sicrhau bod gan lywodraethwyr yr awdurdod uniongyrchol i ddal darparwyr addysg yn atebol, byddwn yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am reoli contractau oddi wrth y BCI i lywodraethwyr ac yn rhoi rhagor o hyblygrwydd iddynt weithio gyda darparwyr i benderfynu sut orau mae darparu addysg ar gyfer pobl ifanc yn eu sefydliadau.

90. Pan fydd plant a phobl ifanc yn cael eu cadw yn y ddalfa, bydd cynllun dysgu i bob person ifanc sy'n gosod nodau clir gan gynnwys ei gyrchfan o ran addysg, swydd neu hyfforddiant ar ôl ymadael â'r sefydliad. Ein nod yw sicrhau bod trefniant i bob person ifanc gael addysg, swydd neu hyfforddiant gyda chynifer â phosibl yn dechrau ar brentisiaeth ffurfiol wrth ymadael â'r ddalfa.

91. Rydym yn disgwyl i blant a phobl ifanc a gedwir yn y ddalfa allu manteisio ar addysg a hyfforddiant o'r un safon uchel ag y gallai prentis ddisgwyl eu cael yn y gymuned. Er mwyn galluogi hyn, byddwn yn datblygu Llwybr Prentisiaeth i bobl ifanc er mwyn cynnig cyfleoedd hyfforddi i blant a phobl ifanc a fydd yn cyfrif tuag at gwblhau prentisiaeth ffurfiol pan gânt eu rhyddhau. Byddwn yn meithrin partneriaethau gyda

chyflogwyr a darparwyr addysg i ddatblygu hyfforddiant cyn-brentisiaeth gan ddisgwyl y bydd cyflogwyr yn cytuno i dderbyn pobl ifanc sy'n ymadael â'r ddalfa'n brentisiaid am gyfnod o 12 mis fan leiaf ar ôl eu rhyddhau.

92. Mae'r profiad a gafwyd yn sgil rhaglen Turnaround to Work y BCI yn awgrymu y bydd gofyn i lawer o blant a phobl ifanc sy'n ymadael â'r ddalfa gael cymorth dwys i barhau â'u haddysg, hyfforddiant a gwaith wrth eu rhyddhau. Bydd llawer o weithwyr y TTI eisoes yn darparu cymorth adsefydlu amhrisiadwy ond mae ystod eang o bartneriaid gwirfoddol ac yn y gymuned yn darparu cyfarwyddyd a mentora. Byddwn yn cryfhau ein partneriaethau â'r sefydliadau hyn i gynyddu'r cymorth sydd ar gael i bobl ifanc sy'n ymadael â'r ddalfa a byddwn yn darparu mentoriaid i'w helpu i gadw swydd a pharhau â'u hyfforddiant.

93. Mae'n bwysig darparu chwaraeon ac ymarfer corff fel rhan o gwricwlwm cytbwys. Mae tystiolaeth dda fod gweithgarwch corfforol yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc o ran gwella'u hunan-gred a lleihau eu pryder yn ogystal â gwella'u hiechyd. Credwn fod lle i arloesi rhagor yn y maes hwn a byddwn yn annog llywodraethwyr i ddatblygu hyn fel rhan o'r cwricwlwm. Mae STI Wetherby wedi creu partneriaeth â chlwb rygbi Leeds Rhinos sy'n cynnal sesiynau un diwrnod yr wythnos. Mae Wetherby hefyd yn hyfforddi bechgyn fel cadlanciau gan weithio gyda'u darparwr addysg i ddarparu gwobr Efydd Dug Caeredin. Yn STI Feltham, bydd clwb rygbi Saracens yn gweithio gydag oedolion ifanc sydd wedi troseddu fel rhan o'u rhaglen 'cadw ar yr ochr iawn' sy'n darparu gwasanaeth mentora, yn meithrin dyheadau ym maes gyrfa, ac yn cysylltu pobl ifanc â chlybiau chwaraeon lleol wrth iddynt gael eu rhyddhau. Byddwn yn cefnogi llywodraethwyr a darparwyr i ddatblygu'r cynlluniau hyn mewn sefydliadau eraill.

Gwella iechyd

94. Mae nifer sylweddol o blant a phobl ifanc a gedwir yn y ddalfa'n dioddef o broblemau iechyd meddwl (a phroblemau iechyd eraill):

- Dywedodd 25% o'r bechgyn mewn STI yn 2015/16 fod ganddynt broblemau emosiynol neu broblemau iechyd meddwl.
- Yn 2014/15, ar gyfartaledd cafwyd 7.7 o ddigwyddiadau hunan-niweidio fesul 100 o bobl ifanc a gedwid yn y ddalfa yn yr ystâd ddiogel bob mis.
- Mae gan bobl ifanc a gedwir yn y ddalfa lefelau uwch na'r cyffredin o gamddefnyddio sylweddau. Mewn astudiaeth hunan-adrodd ymhlith rhyw 500 o fechgyn a merched 12-18 oed, gwelwyd eu bod yn defnyddio llawer mwy o dybaco, alcohol a chyffuriau na'r amcangyfrifon o'r cyfartaledd ar gyfer y boblogaeth yn gyffredinol.
- Mae astudiaethau'n awgrymu y gall fod gan 60-90% o'r bobl ifanc sy'n troseddu anhwylderau cyfathrebu, gan gynnwys problemau lleferydd, iaith, a chlyw a fydd yn effeithio'n sylweddol ar allu unigolyn i weithredu.
- Ar lefel ryngwladol, gwelwyd bod gan 30% o'r boblogaeth mewn carchardai i bobl ifanc ADHD, sydd bum gwaith yn uwch na'r amcangyfrifon rhyngwladol yn y boblogaeth gyffredinol.

95. Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros gomisiynu gwasanaethau iechyd yn yr ystâd i gadw pobl ifanc yn y ddalfa i GIG Lloegr ym mis Ebrill 2013. Ers hynny, mae gwasanaethau iechyd ym maes pobl ifanc sydd yn y ddalfa wedi gwella'n sylweddol. Mae datblygu arf asesu seiliedig ar dystiolaeth a Safonau Gofal Iechyd i Blant a Phobl Ifanc mewn Lleoliadau Diogel, wedi bod yn gryn lwyddiant. Bydd y data a gesglir erbyn hyn gan GIG Lloegr drwy gyflwyno'r arf asesu, a thrwy ddangosyddion perfformiad, yn gwella ein gwybodaeth am y grŵp hwn o blant. Serch hynny, mae angen gwneud rhagor i fynd i'r afael â phroblemau iechyd a lles y garfan hon o blant a phobl ifanc - carfan a all beri risg fawr, niwed mawr, ac sy hefyd yn agored iawn i niwed eu hunain.

Byddwn yn gwneud hyn:

96. Cyn mynd i mewn i leoliad diogel, mae'n bosibl mai'n anaml iawn y bydd y plant a'r bobl ifanc hyn wedi defnyddio gwasanaethau iechyd sylfaenol, sy'n golygu efallai mai'r asesiad a gânt yn awr wrth fynd i mewn i'r ystâd ddiogel fydd y cyfle cyntaf iddynt fynd i'r afael ag angen iechyd sylweddol sydd heb gael diagnosis o'r blaen.

97. Byddwn yn buddsoddi mewn sefydliadau drwy ddarparu Timau Uwch-Gymorth amlddisgyblaeth o staff iechyd a seicoleg a fydd yn sefydlogi pobl ifanc yn gyflymach o lawer drwy gynnig ymyriadau penodol seiliedig ar dystiolaeth i fynd i 'r afael â'u troseddu (er enghraifft ymyriadau i fynd i'r afael ag ymddygiad rhywiol niweidiol, cynnau tanau a thrais).

98. Bwriadwn integreiddio'r Timau Uwch-Gymorth hyn â'r dull 'Secure STAIRS' sy'n cael ei ledaenu gan yr Adran Iechyd ym mhob rhan o ystâd y dalfeydd. Mae'r dull hwn yn rhan o raglen drawsnewid drwy'r wlad i wella canlyniadau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc (y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc). Bydd y gwaith hwn yn dechrau mewn CDiB a CHD ac wedyn yn cael eu datblygu mewn STI. Felly, ni waeth ymhle yn Lloegr y bydd plant a phobl ifanc wedi'u lleoli, byddant yn cael gofal sydd wedi'i adeiladu ar ddull cyson seiliedig ar dystiolaeth.

99. Prif amcan y model 'Secure STAIRS' yw gwella cysondeb gofal iechyd o ddydd i ddydd i bobl ifanc gan staff y rheng flaen. Bydd yr Adran Iechyd yn ariannu arbenigwyr ychwanegol i gryfhau'r cymorth iechyd a'r cymorth seicolegol a ddarperir ar hyn o bryd. Bydd yr arbenigwyr hyn yn hyfforddi'r holl staff sy'n gweithio mewn lleoliadau yn y ddalfa (swyddogion, athrawon, nyrsys a hyfforddwyr) am sut i adnabod a chefnogi plant a phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd. Y bwriad yw bod yr holl broffesiynau gwahanol yn rhannu'r un ddealltwriaeth ynglŷn ag anghenion y plentyn neu'r person ifanc a sut orau i weithio gyda hwy.

100. Mae'r ddarpariaeth gwasanaethau iechyd wedi'i datganoli yng Nghymru. Er mwyn defnyddio model tebyg i Secure STAIRS, byddai angen cydweithrediad a buddsoddiad gan GIG Cymru a Llywodraeth Cymru ond mae dull tebyg ar y gweill gyda golwg ar hyfforddi staff yn STI y Parc am sut i adnabod trawma a helpu gyda datblygiad plant. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a darparwyr cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru i ddysgu yn sgil eu harferion fel rhan o'n cynlluniau i ymgysylltu.

Grymuso llywodraethwyr a staff y rheng flaen

101. Mae gennym lawer o arweinyddion galluog iawn yn gweithio yn y dalfeydd ieuenctid. Ond, er mwyn bod yn arweinwyr effeithiol, mae angen iddynt gael y rheolaeth a'r awdurdod i bennu'r cyfeiriad ar gyfer eu sefydliadau. Ar hyn o bryd, maent yn cael eu llesteirio gan system sy'n hynod gymhleth a chanolog. Bydd llawer o'r gwasanaethau'n cael eu cydlynu'n wael ac yn cael eu cynllunio a'u comisiynu'n aml ar lefel uwch na'r sefydliad ei hun. Nid oes gan y llywodraethwyr y dulliau cyflawni sydd eu hangen arnynt i integreiddio'r rhain er mwyn i garcharorion gael y gwasanaethau iawn ar yr adeg iawn.

Byddwn yn gwneud hyn:

102. Yn yr ystâd i oedolion, rydym yn rhoi'r gallu, y rheolaeth a'r awdurdod penderfynu i lywodraethwyr droi'r carchardai'n fannau diogel i ddiwygio pobl a byddwn yn estyn yr egwyddor hon i'r ystâd ieuenctid er mwyn i'r sawl sy'n rhedeg sefydliadau diogel fod wedi'u harfogi'n well i leihau trais a mynd i'r afael â phroblemau'r plant a'r bobl ifanc sydd dan eu gofal.

103. Yn ystod 2017 a 2018, byddwn yn rhoi mwy o awdurdod i lywodraethwyr a chyfarwyddwyr dros raglenni achrededig, y ddarpariaeth addysg, gwasanaethau iechyd, staffio, cyllidebau a pholisïau gweithredu.

104. Rydym yn sylweddoli y bydd y cyfrifoldeb ychwanegol hwn yn golygu newid sylweddol y ffordd yr ydym yn disgwyl i lywodraethwyr ac uwch reolwyr weithio. Yn y Papur Gwyn am Garchardai, Diogelwch a Diwygio, nodwyd ein bwriad sef datblygu strategaeth allu gynhwysfawr i helpu ein llywodraethwyr a'n huwch reolwyr i groesi'r bont hon. Byddwn hefyd yn rhoi'r strategaeth hon ar waith gyda llywodraethwyr yn yr ystâd ieuenctid.

105. Wrth inni rymuso llywodraethwyr, byddwn hefyd yn eu dal yn atebol am yr hyn y byddant yn ei gyflawni. Fel y nodwyd ym mhennod un, rydym yn gweithio gyda'r BCI i ddatblygu fframwaith perfformiad newydd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer y system cyfiawnder ieuenctid, gan gynnwys y dalfeydd ieuenctid. Ar ôl datblygu hon, byddwn yn ei defnyddio i ddal llywodraethwyr a chyfarwyddwyr yn atebol am gyflawni gwell canlyniadau i'r plant a'r bobl ifanc sydd dan eu gofal. Ategir hyn drwy gyfrwng trefn graffu ac arolygu gryfach, gan gynnwys mecanwaith er mwyn i ganfyddiadau'r arolygiaeth sbarduno ymyrryd yn yr achosion gwaethaf.

Meithrin gallu a gwella sgiliau'r gweithlu

106. Mae angen llawer iawn o sgiliau, sensitifrwydd ac ymroddiad i helpu person ifanc i ymddiwygio dan amgylchiadau anodd. Mae llawer o'r staff sy'n gweithio yn ein STI a'n CHD, gan gynnwys swyddogion y ddalfa, athrawon, seicolegwyr a nyrsys yn fodelau rôl i'r sawl sydd dan eu gofal, ac maent yn gallu dylanwadu'n helaeth ar eu bywyd. Mae gennym lawer o staff dawnus ac ymroddedig sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc drwy ein hystâd. Serch hynny, mae proffil staffio STI a CHD yn dal i bwyso'n drwm i gyfeiriad y rheini sydd â diogelwch yn brif swyddogaeth iddynt. Mae heriau recriwtio STI a lefelau uchel o drosiant staff yn y CHD hefyd wedi cyfrannu at weithlu sydd weithiau'n brin o'r profiad a'r sgiliau sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r ffactorau sy'n cyfrannu at droseddu gan blant a phobl ifanc.

Byddwn yn gwneud hyn:

107. Byddwn yn cynyddu nifer y staff drwyddi draw ac yn trawsnewid set sgiliau'r sawl sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc a gedwir yn y ddalfa.

108. Byddwn yn hybu'r niferoedd ar y rheng flaen weithredol mewn STI 20%. Bydd hyn yn sicrhau bod gennym y capasiti yn y system i ostwng lefelau'r trais a gwireddu ein huchelgais diwygio.

109. Ar wahân i hyn, byddwn yn cryfhau sgiliau'r sawl sy'n gweithio gyda phobl ifanc ac yn creu rôl arbenigol newydd, sef Swyddog Cyfiawnder Ieuenctid. Bydd rhai Swyddogion Cyfiawnder Ieuenctid yn cael eu recriwtio o'r tu allan drwy ymgyrch newydd wedi'i thargedu, a bydd eraill yn cael eu datblygu o'r tu mewn i'r gweithlu presennol. Rydym yn awyddus i'r swyddogion hyn ddangos ymrwymiad i ddiwygio pobl ifanc ac iddynt feddu ar lawer o'r sgiliau a welir ym maes gwaith ieuenctid, gwaith cymdeithasol neu addysgu, neu fod ganddynt y gallu i feithrin y sgiliau hynny. Mae'n bosibl y bydd y recriwtiaid newydd yn dod yn uniongyrchol o'r cefndiroedd proffesiynol hyn, ond bydd y staff presennol yn cael cymorth hefyd i ddilyn hyfforddiant perthnasol er mwyn datblygu'r sgiliau angenrheidiol i ysgwyddo'r rôl newydd hon. Rydym wrthi'n trafod â phartneriaid i gynllunio'r hyfforddiant iawn ond bydd yn cynnwys cyfleoedd i ddatblygu sgiliau ym maes seicoleg plant, gan ddeall pa bryd a sut mae defnyddio ymyriadau, gweithio gyda phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig ac arferion effeithiol o ran helpu plant a phobl ifanc i beidio â throseddu. Yn y tymor hwy, byddem yn hoffi gweld rhagor o symud rhwng y ddalfa a'r gymuned gydag ymarferwyr yn gallu gweithio ar draws y ddwy ddisgyblaeth.

110. Fel rhan o'n cynlluniau ar gyfer adnoddau, byddwn hefyd yn awyddus i recriwtio nifer sylweddol o staff newydd yn y dalfeydd fel prentisiaid. Roedd y Papur Gwyn am Ddiogelwch Carchardai a Diwygio'n sôn am sut y byddwn yn treialu cynllun newydd - cynllun Prentisiaeth i Swyddogion Carchar a byddwn yn gweithio i ddatblygu trefniadau tebyg ar gyfer prentisiaid sy'n dymuno gweithio tuag at ddod yn Swyddogion Cyfiawnder Ieuenctid. Bydd y cynllun hwn yn helpu'r prentisiaid i ddatblygu'r sgiliau craidd, y wybodaeth a'r ymddygiad sy'n ofynnol i weithio gyda phlant a phobl ifanc yn y ddalfa.

111. Ar draws llinynnau ein strategaeth ar gyfer y gweithlu, rydym wedi ymrwymo i ledaenu amrywiaeth ethnig staff y dalfeydd ieuenctid. Byddwn yn targedu grwpiau sydd heb eu cynrychioli'n deg ar hyn o bryd drwy ein strategaeth recriwtio ac yn rhoi cymorth priodol wrth eu gwaith i bobl dduon a phobl o gefndiroedd ethnig sydd eisoes yn aelodau o'r staff ac i aelodau newydd.

112. Ar hyn o bryd, nid yw'r arferion gweithio beunyddiol bob tro'n rhoi'r lle i staff rannu eu profiadau a chefnogi ei gilydd. Byddwn yn ceisio mynd i'r afael â hyn drwy ledaenu model cefnogaeth cydweithiwr-i-gydweithiwr a hwnnw'n cael ei dywys gan agweddau seicolegol ar gyfer y gweithlu sy'n cydnabod ei bod yn rhaid rhoi amser i staff sy'n gweithio yn y rolau heriol hyn i fentora, myfyrio a chefnogi ei gilydd.

Cynllun cymorth newydd yn y ddalfa

113. Ar hyn o bryd, ni fydd pob plentyn a pherson ifanc a gedwir yn y ddalfa'n cael cyfle'n rheolaidd i drafod ei ymddygiad a'i nodau gydag aelod o'r staff. Rydym yn awyddus i bob person ifanc gael ei dywys yn well drwy gydol ei ddedfryd yn y ddalfa.

Byddwn yn gwneud hyn:

114. Fel rhan o'n camau i fynd i'r afael â thrais a sicrhau disgyblaeth ac ymddygiad da, byddwn yn cyflwyno cynllun cymorth newydd yn y ddalfa. Neilltuir swyddog personol i bob unigolyn ifanc a bydd y swyddog yn gweithio gyda phedwar o bobl ifanc ar y mwyaf ar y tro. Bydd y swyddog yn cyfarfod â'r person ifanc o fewn 48 awr iddo gyrraedd ac yna'n dilyn ei hynt drwy gyfarfodydd wythnosol. Bydd y cyfarfodydd wythnosol yn gyfle i'r person ifanc drafod problemau a gosod nodau ar gyfer ei ymddygiad, ei addysg a'i iechyd. Bydd y swyddog yn ei helpu i gynnal a datblygu cysylltiadau cadarnhaol ac yn ei gyfeirio at wasanaethau cymorth lle bydd gofyn.

Gwella'r ystâd drwy ddatblygu unedau bach a chymorth arbenigol

115. Ers mis Ebrill 2007, mae'r gostyngiad yn nifer y plant a'r bobl ifanc sydd wedi'u dedfrydu i gyfnod yn y ddalfa wedi golygu bod modd datgomisiynu 22 o safleoedd. Mae hyn wedi arwain at grynhoi'r troseddwyr ifanc sy'n weddill mewn llai o sefydliadau, a'r rheini ymhellach ar wahân i'w gilydd.

116. Mae tua 70% o'r boblogaeth bellach yn cael eu cadw mewn dim ond pump STI. Mae hyn wedi golygu llai o hyblygrwydd ac wedi gwaethygu'r problemau diogelwch. Mae ymchwil ddiweddar gan ACEM yn dangos bod cael eu lleoli ymhellach oddi cartref yn golygu bod pobl ifanc yn cael llai o ymweliadau gan eu teulu a chan weithwyr proffesiynol a bod hyn hefyd yn cael ei weld yn amharu ar eu hadsefydlu.

117. Mae'r ffaith bod llai o sefydliadau yn yr ystâd hefyd wedi effeithio ar amrywiaeth y ddarpariaeth ac wedi'i gwneud yn anos mynd i'r afael â phroblemau plant a phobl ifanc sydd ag anghenion penodol ac yn agored i wahanol fathau o niwed.

Byddwn yn gwneud hyn:

118. Er mwyn helpu sefydliadau i wella'r gofal a gaiff pobl ifanc sy'n fwy agored i niwed yn y ddalfa, byddwn yn datblygu unedau cymorth arbenigol ychwanegol sydd â chymhareb staff a phobl ifanc uwch er mwyn cynnig cymorth a chyfarwyddyd seicolegol gwell i blant a phobl ifanc sydd a'r problemau mwyaf dyrys.

119. Mae'r dull hwn wedi'i ddatblygu'n benodol yn Uned Keppel yn STI Wetherby sy'n cadw ychydig yn llai na 45 o fechgyn rhwng 15 ac 18 oed. Fe'i hagorwyd saith mlynedd yn ôl ac mae'r uned yn adnodd cenedlaethol sydd wedi'i chynllunio i ddarparu cymorth mwy datblygedig i rai o'r plant a'r bobl ifanc mwyaf heriol ac agored i niwed a gedwir yn y ddalfa ar hyn o bryd. Mae Keppel wedi sicrhau'r sgoriau arolygu uchaf posibl yn gyson. Serch hynny, mae ei berfformiad wedi llithro'n ddiweddar a bwriadwn ddarparu rhagor o gymorth er mwyn sicrhau ei fod yn gallu ailganolbwyntio ar fynd i'r afael â phroblemau grŵp o bobl ifanc sy'n arbennig o agored i niwed.

120. Mae tystiolaeth addawol ar gael o blaid unedau cymorth arbenigol. Wrth werthuso uned Keppel, awgrymwyd bod plant a phobl ifanc yn fwy tebygol o gytuno bod y staff yn eu cefnogi ac yn fwy tebygol o siarad ag aelod o'r staff am broblem na'r rheini a oedd ar brif safle'r STI. Mae tystiolaeth ar gael hefyd gan Uned Heron, sef uned gadw fechan a agorwyd yn 2008 i dreialu dull 'gwell ailsefydlu' yn STI Feltham. Canfu'r gwerthusiad fod 84% o bobl ifanc yn dweud bod eu perthynas â'r staff yn dda; ac roedd 74% yn teimlo bod eu perthynas â phobl yn Uned Heron yn well nag yr oeddent wedi'i chael o'r blaen mewn rhannau eraill o'r STI.

Datblygu ysgolion diogel

121. Mae Adolygiad Taylor yn cynnig y dylid disodli STI a CHD yn y tymor hwy gan ysgolion diogel llai o faint yn y rhanbarthau y maent yn eu gwasanaethu. Dylid sefydlu'r rhain, eu cynnal, eu llywodraethu a'u harolygu fel ysgolion, gan fanteisio ar arbenigedd a phrofiad ysgolion rhagorol sy'n cynnig darpariaeth amgen (darparu addysg i blant a phobl ifanc nad ydynt yn gallu mynychu ysgolion y brif ffrwd) ac sy'n rhoi mwy o ryddid i'w penaethiaid recriwtio staff a chomisiynu gwasanaethau.

Byddwn yn gwneud hyn:

122. Rydym yn cytuno â'r weledigaeth hon a byddwn yn datblygu dwy 'ysgol ddiogel' mewn mannau strategol yn agos at y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Yn ddelfrydol, bydd un o'r safleoedd hyn yng Ngogledd Lloegr oherwydd nad oes darpariaeth CHD i bobl ifanc yno, a bydd y llall yn Ne Lloegr. Ym mis Medi 2016, roedd 38% o'r boblogaeth ifanc a gedwid yn y ddalfa'n dod o Lundain a De-ddwyrain Lloegr. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddarparu addysg yng Nghymru a byddwn yn cydweithio a hwy i ystyried sut y gallai egwyddorion ysgolion diogel gael eu rhoi ar waith yng Nghymru.

123. Byddwn yn canolbwyntio'n gryf ar addysg a iechyd drwy ddenu ystod ehangach o ddarparwyr arbenigol a rhoi'r rhyddid iddynt benderfynu sut orau mae darparu eu gwasanaethau. Rydym yn rhagweld y bydd ysgolion diogel yn lletya plant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw ar hyn o bryd mewn STI a CHD. Bydd CDiB yn dal i gael eu defnyddio i letya'r plant a'r bobl ifanc hynny sydd fwyaf agored i niwed.

124. Rydym yn awyddus i greu amgylchedd lle bydd pobl ifanc yn teimlo eu bod yn gallu ymgysylltu â gwasanaethau gofal, iechyd ac addysg a gwneud cynnydd da o safbwynt cymdeithasol, iechyd ac addysg. Rydym yn awyddus iddynt gamu ymlaen yn gadarnhaol i leoliadau addysg, gwaith neu hyfforddiant ac aros yno ar ôl iddynt ymadael â'r ddalfa, a bod y cymorth Anghenion Addysgol Arbennig iawn ar gael ar eu cyfer.

125. Bydd angen i ddarparwyr ysgolion diogel recriwtio, cadw a datblygu gweithlu medrus a phroffesiynol iawn sydd â'r sgiliau, y gallu a'r cydnerthedd sy'n ofynnol i weithio gyda phobl ifanc heriol. O fewn y model staffio hwn, bydd yn rhaid i benaethiaid sicrhau bod anghenion diogelwch yn cael sylw priodol ond bydd ganddynt ryddid i recriwtio staff ac i gynllunio sut y caiff y gwasanaethau eu darparu.

126. Wrth ddatblygu'r rhain, bydd ysgolion yn cydweithio â'r Adran Addysg, yr Adran Iechyd a GIG Lloegr ynghyd ag ystod o ddarparwyr iechyd, addysg a gofal, gan gynnwys y rheini sydd â phrofiad o gynnig darpariaeth amgen o safon mewn ysgolion. Bydd yr ysgolion hyn yn darparu gwasanaethau drwy ddefnyddio dull seiliedig ar dystiolaeth sy'n cynnwys:

- Cefnogi gofal 24-awr sy'n mynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol, emosiynol, addysgol a datblygiadol y bobl ifanc.
- Cynnal asesiadau trwyadl a fydd yn golygu bod modd cyfatebu ymyriadau'n briodol â'r risgiau cysylltiedig â throseddu sy'n berthnasol i bobl ifanc unigol.
- Sicrhau bod anghenion addysgol arbennig y bobl ifanc yn cael eu diwallu a bod yr addysgu'n digwydd mewn grwpiau o faint priodol, wedi'i staffio'n briodol a'i fod yn cefnogi ac yn ymestyn pob person ifanc.

- Gweithio gyda theuluoedd pobl ifanc.
- Gweithio'n effeithiol gyda darparwyr addysg a gwasanaethau eraill yn y gymuned (fel rhan o ymddiriedolaeth sawl academi, neu drwy ddulliau eraill) a dechrau cynllunio ar gyfer ailsefydlu person ifanc ar ôl ei ryddhau o'r ddalfa'n fuan yn ystod y ddedfryd.
- Integreiddio cymorth gwasanaethau iechyd meddwl a chorfforol i'w model.

127. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, byddwn yn cychwyn proses cyn bo hir o ymgysylltu â darparwyr posibl er mwyn datblygu'r manylion ynghylch sut y caiff y rhaglenni peilot eu comisiynu a sut y byddant yn gweithio.

ISBN 978-1-4741-3947-2